

Llais Ogwan


Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhagfyr 2012

Rhif 428

50c

Gwir Ystyr y Nadolig



Yn y llun gwelir Leon yn derbyn llythyr arbenig gan ei hoff glwb pêl-droed, Manchester United.

YNG nghanol prysurdeb a bwrlwm y Nadolig yn y Dyffryn eleni, mae 'na un stori sy'n cymryd cam go fras i adennill gwir ystyr yr Wyl i lawer ohonom, a'r stori honno yw stori Leon Williams o Faes Bleddyn. Cwta dri mis yn ôl, bachgen arferol chwe mlwydd oedd Leon, ond yn ddisymwth, fe ddiodeffodd salwch mor ddifrifol nes y bu'n rhaid ei drosglwyddo i ysbty arbenigol plant yn Alderhey ar gyrion Lerpwl. Yno darganfuwyd ei fod yn dioddef o gyflwr hynod brin -Syndrom Nephrotig- oedd yn golygu nad oedd ei arennau yn gweithio'n iawn ac felly ymrodd yr ysbty i geisio trin Leon ac adfer ei iechyd. Y mae'r broses wedi bod yn un hir, ac mae'r teulu'n parhau wrth ei ymyl hyd nes y bydd yn ddigon da i ddod adref atom ni.

Tymor Ewyllys Da

Pan glywodd trigolion Dyffryn Ogwen am sefyllfa Leon, teimlasant ei bod yn rhaid iddynt wneud rhywbeth. Trefnodd ffrindiau a chymdogion Leon ym Maes Bleddyn noson Gaws a gwin yn y Royal Oak ble codwyd dros fil o bunnau! Yn ystod mis cyntaf ei salwch, trosglwyddodd Ysgol Llanllechid dros £500 at yr apêl. Ar Ragfyr yr 8fed, cynhaliwyd eu Ffair Nadolig, a bydd yr holl elw eleni yn mynd at apêl Leon. Yn ystod Eisteddfod Dyffryn Ogwen codwyd dros £150 mewn blwch casglu yn y neuadd, a phan gyhoeddwyd yr apêl o'r llwyfan, penderfynodd disgyblion ysgol Tregarth yr hoffent gyfrannu eu casgliad tuag at Blant mewn Angen tuag at yr apêl- dros £150 eto. Yr un modd, cyfrannodd Ysgol Bodfeurig tuag at yr achos. Trefnodd staff Londis flychau casglu yn y siop yn ogystal â raffl fawr. Rhoddwyd £175, sef elw raffl a sgwâr cant gan Ganolfan Rachub, i'r apêl hefyd. A dim ond y dechrau yw hyn. Dymuna William a Lorraine, rhieni Leon, ddiolch o waelod calon i bawb am eu cefnogaeth dros gyfnod anodd.

Ydi wir, mae'r Dyffryn yn uno y tu ôl i deulu Leon, ac yn gobeithio, erbyn y byddwch yn darllen y rhifyn hwn o'r Llais, y bydd o adre'n ôl ym Maes Bleddyn gyda'i chworydd Sophie ac Emma. Felly, dymuniadau gorau i bawb dros y Nadolig, ac i bawb, ond i Leon yn arbennig, blwyddyn newydd iach.

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan



Yr anrheg Nadolig
ddelfrydol

£4.00 yn y siopau lleol
neu ffoniwch
Dafydd Fôn Williams
01248 601583

Cynhelir

**GWASANAETH
NADOLIG
CYMUNEDOL**

YNG NGHAPEL
JERUSALEM, BETHESDA

**NOS SUL, 23 RHAGFYR,
2012**
am 7 o'r gloch

Côr y Dyffryn – Dalier sylw:
Cynhelir ymarfer y carolau
cynulleidfaol
yn festri'r Capel
Nos Sul, Rhagfyr 16
am 6.15 o'r gloch

Tymor Ewyllys Da

Drwy ryndod hir gysgodion - awn heno
yn heini a phrydlon
ar daith yng nghwmni'r doethion
at wresog lu'r llety llon.

Dilwyn Owen.

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 600274
dewision@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:
André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.com

Y Llais Drwy'r Post:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn gan Lowri Roberts a Walter Williams.

Golygydd mis Ionawr fydd Neville Hughes, Bryn Ffrydlas, 14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA. (01248 600853.) nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 2 Ionawr, os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 17 Ionawr yng Nghanoifan Cefnfaes am 6.45.

Tybed a fyddai gennych ddi-ddordeb mewn teipio ar gyfer y Llais?
Angen sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a rhyngrwyd.

Telerau rhesymol.
(07902 362213) post@tasg.co.uk

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Rhagfyr

- 15 Bore Coffi Eglwys Sant Tegai. Neuadd Ogwen. 10.00 -12.00
- 16 Ymarfer Carolau at y Gwasanaeth Cymunedol. Ffestri Jerusalem 6.15
- 22 Bore Coffi Cymdeithas Cŵn Tywys i'r Deillion. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 23 Gwasanaeth Nadolig Cymunedol. Capel Jerusalem am 7.00.

Mis Ionawr

- 02 Anfon deunydd ar gyfer rhifyn Ionawr o 'r Llais at Olygydd y mis.
- 05 Bore Coffi Apêl Eleanor tuag at Offer i Ward Alaw. Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00
- 07 Merched y Wawr Tregarth. Talwrn Gwahanol. Ffestri Shiloh am 7.00
- 12 Bore Coffi. Apêl Leon Williams. Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00
- 14 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Dr. Dafydd Roberts. Ffestri Jerusalem am 7.00
- 16 Cymdeithas Lenyddol Gofalaeth Bro Dyffryn Ogwen. "Fy Hoff?" Ffestri Jerusalem am 7.00
- 17 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
- 18 Noson Lansio llyfr "Rhai o Enwogion Llên Dyffryn Ogwen". Neuadd Ogwen am 7.00
- 19 Bore Coffi. Mini Rygbi Bethesda. Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00
- 23 Cyfarfod Blynyddol Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.00
- 23 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 25 Noson Dwynwen Plaid Cymru.. Clwb Rygbi Bethesda am 7.30
- 26 Bore Coffi Cyfeillion Ysgol Abercaseg. Neuadd Ogwen 10.00 – 12.00
- 29 Plaid Cymru - Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
☎ 01248 600184



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidiwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Rhoddion i'r Llais

£15.00 Er cof annwyl am Gwyn Davies ar ei ben-blwydd yn 50ml oed oddi wrth Angela a'r plant, Mam a Dad, Sioned, Paul a'r plant.

£5.00 Er cof am fy mab, Robert Werner Pritchard, a fu farw 27 Rhagfyr 2003, oddi wrth Dafydd Pritchard, Rhes Elfed, Bethesda.

£5.00 Er cof am ein brawd, Trevor Vaughan Pritchard, a fu farw 16 Rhagfyr 1965, "Cwsg nes gweld ein gilydd eto" David a Helen, Rhes Elfed.

£25.00 Mrs Marie Williams, 100 Ffordd Carneddi.

£20.00 Di-enw, Llandygai.

£13.00 G. P. Evans, Amwythig.

£20.00 Er cof annwyl am Glenys Evans, Ceunant a Mr William John Evans (helpar Siôn Corn) 15 Ffordd Llanllechid, oddi wrth Gwilym Rees, Karen, Tom, Stephen, Elen, Ceri a Lee.

£50.00 Er cof am Glyn Campbell oddi wrth Hilda, Lynne, Andy, Elliott a Sam.

£5.00 Mrs Mair Roberts, Gwaunydd, Hafod Lon, Rhiwlas.

£10.00 Er cof am Dylan Wyn Williams, Ffordd Llanllechid, Rachub, oddi wrth y teulu.

£20 Mrs. Dilys Jones, Pencilan, Bethesda.

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Tachwedd

£30 (17) O.G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda
£20 (90) Carys Williams,
12 Talycae, Tregarth.
£10 (73) Tom Gwyn Jones,
Creigle, Rhiwlas.
£5 (46) Rhiannon Efans,
1 Ffordd Pant, Bethesda.

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Llythyrau

**Ton-teg
Tal y cae
Tregarth**

Tachwedd 29

Annwyl Olygyddion,

Ysgrifennaf i dynnu sylw at ddau o enwau lleol sydd yn cael un ai eu camynganu neu eu camsillafu. Mae Llandygái wedi cael ei gamsillafu fel Llandegai yn rhifyn mis Tachwedd o'r Llais (ddwywaith) ac mae Moelyci yn cael ei ynganu fel Moel-y-ci gan amryw o drigolion y dyffryn yn hytrach na fel un gair gyda'r acen ar yr 'y'. (Mae yna boster yn hysbysebu cynnyrch Moel y Ci mewn siopau ym Methesda ar hyn o bryd). Gobeithio y bydd golygyddion y Llais yn gofalu na fydd hyn yn digwydd ac yn cywiro unrhyw gamsillafu.

Yn gywir
Rhys M. Llwyd

[Nodyn gan y golygyddion: Gan fod llygaid Mr. Rhys Llwyd mor graff, a chan ei bod yn amwg ei fod yn mynd trwy'r Llais gyda chrib mân, efallai yr hoffai roddi ei enw ymlaen i gael ei ystyried fel un o olygyddion y Llais, gan ein bod wedi colli ambell un yn ddiweddar. Wrth gwrs, golyga hyn oriau maith o waith gwirfoddol, a hynny'n aml yn ddi-diolch!]

Breuddwyd Cymru

Heno yr wyf fy hunan
Yn gweld drwy y golau gwan
Hen hil y ddau Lywelyn
Yn y coed yn cilio, cyn
I'n ffiniau droi'r un ffinud, -
Oer, oer yw bedd cewri byd.
Du fedd ein hetfeddiaeth,
A ni'n y gwyll, a fu gwaeth?
Na chliwn. Yn iach, olau
Awn ni, y dewr, fesul dau
I feithrin mur a ffiniau
Y caerau fil a'u cryfhau.
Rhoi gwawl ar garreg aelwyd,
Rhoi caer am y rhai a'i cwyd.
Heno yr wyf fy hunan
Yn gweld drwy y golau gwan.

Ffarwél i'r Haf

O farw'r ir fiaren,
Hirddydd haf a'i wreiddiau hyn,
Y llwyd rin arall i dref
A edrydd ddyfod hydref.
O hyd daw iasau hudol
Ddyddiau'r ddawns hyd erddi'r ddol,
Yn lliwiau llaith gerllaw llyn,
Yn aeliau coch y celyn.
Min oer a ddaw ar awel,
A hwyr glaf yr haf yn hel
Atgofion llwyd gaeafau
O briddoedd mwyn y brwyn brau.
Hyd edrydd oemi'r hydref,
Araf dranc yr haf i dref,
Ac araf daw haf ei hun
Yn ôl i Ben Braichmelyn.

Goronwy Wyn Owen

Champion Shep



Bu cystadlu brwd ym Mhencampwriaeth Golf y Siôr yn Llandrillo yn Rhos ar ddechrau mis Tachwedd. Bu pedwar ar hugain o chwaraewyr yn brwydro am y teitl ond Merwyn 'Shep' Davies o Garneddi a ddaeth i'r brig i ennill y darian hardd. Llonyfarchiadau i ti, mi chwaraeaist yn wych, mi chwaraeaist yn champion, Shep!

Dau gynllun sy'n cefnogi pobl ifanc a busnesau lleol

Yn ogystal â darparu nawdd ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio eu cwrs gradd yn rhannol, neu'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn falch o ddatgan eu bod yn cynnig cynllun profiad gwaith a Thystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg i'r myfyrwyr hynny. Ond, cofiwch fod y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn agored i bob myfyrwr sy'n astudio mewn prifysgol yng Nghymru, felly os ydych chi'n fyfyrwr, dewch mewn cysylltiad!

Mae'r Coleg eisiau clywed gan fusnesau a mudiadau bach a mawr ar draws y wlad. Ydych chi'n gweithredu'n ddwyieithog? Ydych chi eisiau gwneud mwy trwy gyfrwng y Gymraeg? Os ydych chi'n gyflogwr yn y sector gyhoeddus, y sector breifat, y trydydd sector, neu'n fudiad elusennol - cysylltwch â ni i drafod beth all y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gynnig i chi!

Dywedodd Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd ac Uwch Reolwr Academaidd y Coleg; "Mae'r Coleg yn ymrwymedig i gyfarfod â'r galw am sgiliau dwyieithog yn y gweithle, ac rydym yn awyddus i gydweithio gydag ystod eang o gyflogwyr ar draws Gymru". Allwch chi gynnig cyfnod o brofiad gwaith i fyfyrwyr ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol? A ydych yn awyddus i fod yn rhan o rwydwaith eang o fusnesau a sefydliadau sy'n cefnogi'r Dystysgrif Sgiliau Iaith?

Bydd swyddogion y Coleg wrth eu boddau o gael trafod y ddau gynllun gyda chi.

Cysylltwch gyda ni am gwrs ...

Lois Roberts, 01248 833770 / l.roberts@colegcymraeg.ac.uk neu Lisa Haf, 02920 870945 / l.haf@colegcymraeg.ac.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☎ 601902

Cyfarchion Nadolig

Ni fydd Mrs Hilda Campbell Erw Las yn anfon cardiau Nadolig eleni, felly drwy gyfrwng Y Llais dymuna Nadolig Llawn i bawb. Anfonwn ein cofion at Percy Parry Erw Las sydd yn Ysbyty Eryri.

Ni fydd Helen a Rheinallt Jones, 15 Rhes Elfed, yn anfon cardiau Nadolig y tymor hwn. Maent yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Lansio Llyfr

Cafwyd noson hwyliog iawn yn Y Llangollen ar nos Fercher Tachwedd 28ain pan lanswyd hunangofiant Neil Williams neu Neil Maffia fel yr adnabyddir ef gan y rhelyw. Darllenodd bytiau difyr iawn o'r llyfr a chanodd ambell gân boblogaidd gan Maffia. Bu'n brysur wedyn yn arwyddo ei lyfr. Braff oedd ei weld yn ôl yn ei gnefin ynghyd â'i deulu. Mae ei dad Emyr bellach yn byw yn Rwsia. Cofir yn annwyl iawn yn y llyfr am ei daid a'i nain, sef Eileen a William John Williams, Maes Coetmor, neu Anti Eileen fel yr oedd i lawer ohonom yn yr ardal.

Nosweithiau'r Llan

Mae nosweithiau da i'w cael yn y Llangollen. Nos Wener Tachwedd 30ain 'roedd Cowboys Rhos Botwnnog yn canu yno gyda'r grŵp lleol Vintage Magpie fel band cefnogol. Cafodd Callum O'Mara o'r Gerlan chwarae'r drymiau gyda hwy yn eu cân 'Moch' ac 'roedd yn hynod o dda.

Pen-blwydd

Dymuna Brenda Owen, 12 Ffordd Ffrydlas, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70 ar Hydref 21ain. Dymuna Brenda & Selwyn Nadolig Llawn i'w cymdogion.

Pen-blwydd

Dathlodd Mrs Sulwen Lloyd, Glanogwen ei phen-blwydd arbennig ddiwedd Tachwedd. Llonyfarchiadau.

Ysbyty

Cofion cynnes at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, a da deall eich bod yn gwella:- Mrs Nancy Jones, Pant Glas Mr Bill Lloyd Williams, Ffordd Bangor Mr Dafydd Williams, Llain y Pebyll

Marwolaeth

Ar Dachwedd 6ed bu farw Mrs Doreen Jones, 21 Bontuchaf yn 81 oed, priod y diweddar Mr Eryl Jones a mam a mam-ynghyfraith Gwyn a Gwennan, nain garedig i Angharad, Gwenllian a'i chymar Aidan, hen-nain i Megan Flur, a chwaer i Mrs Jean Cross, Adwy'r Nant a'r diweddar Arfon, Clifford a Phil. Bu ei hangladd ddydd Llun, Tachwedd 12fed gyda gwasanaeth yn Eglwys Jerusalem a mynwent Eglwys Coetmor. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog y Parchedig Geraint Hughes a'r Parchedig John Owen, gyda Mrs Gwenno Evans wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich profedigaeth o golli Doreen.

Colled

Yn Ysbyty Gwynedd ar Dachwedd 21ain bu farw Mr Denis Howell, 23 Ffordd Ffrydlas, yn 81 oed. Priod annwyl Mrs Hilda Howell, tad Sandra a Graham, a thaid Grant. Gŵr tawel a pharchus, parod ei sgwrs ydoedd. Bu'n gweithio i'r awdurddod Iechyd hyd ei ymddeoliad. Bu ei angladd ddydd Mawrth, Tachwedd 27ain, gyda gwasanaeth ym mynwent Eglwys St Anne, Mynydd Llandegai, gyda'r Parchedig John Mathews yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu yn eich colled.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA yng Nghapel Jerusalem

CYHOEDDIADAU'R MIS
Rhagfyr 16 Gwasanaeth Nadolig y Plant (10.00)
Y Gweinidog (5.00)

Rhagfyr 23
Miss Nerys Jackson (10.00)
Gwasanaeth Carolau

Rhagfyr 30 Y Gweinidog

Estynnir croeso cynnes i bawb i oedfaon Sul

Bore Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10.00
Hwyr Gwasanaeth am 5.00

Merched y Wawr Cangen Bethesda

Croesawodd y Llywydd bawb i gyfarfod o'r gangen a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes, nos Iau, Tachwedd 29. Rhoddodd groeso arbennig i ddwy ddysgwraig sef Linda Cambell a Sue Allan, y ddwy yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg ac yn awyddus i gael cyfle i siarad yr iaith. Cafwyd ymddiheuriadau gan Rita Bullock, Jean Northam ac Eurwen Morris. Roedd ein meddyliau i gyd gyda Brenda a'i theulu a hithau mor wael yn Ysbyty Gwynedd. Roedd nifer wedi bod yn cwyno gan annwyd trwm a threuliodd Nest, wyres fach Eleanor, noson yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd gyda Jean Ogwen Jones, wedi colli nith yn Llanelwy y ffrind agos yn Abergele. Wrth feddwl am ein haelodau ni ein hunain, 'roedd ein meddyliau gyda'r rhai a ddiwedfodd mor enbyd yn ystod y llifogydd.

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth i'r sioe grefftiau y mis blaenorol a gofynnwyd am gefnogaeth i'r rhai fydd yn cadw'n ddistaw (am ddwy awr!!) y mis nesaf. Eleni byddwn yn casglu at elusen Clic Sergeant (yr adran leol) sef elusen i blant yn dioddef oddi wrth gancr.

Wedi gorffen amryw drefniadau, cafwyd cyfle i groesawu'r siaradwyr sef y Dr. Dafydd Roberts a'i briod Enid yn adrodd hanes eu merch Beca yn dysgu mewn ysgol ym Malawi am flwyddyn, a hanes eu hymwelriad hwythau â'r wlad. Cawsom noson ddfyr dros ben a lluniau ardderchog i ddarlunio'r daith. Cawsom hyd yn oed brofi te Malawi. Diolch yn fawr iddynt am noson ddfyr iawn. Diolch hefyd i Eleanor a Margaret am baratoi y te ac am y cacennau hyfryd.

Fe fydd y cyfarfod nesaf yn yr un lle nos Iau, Ionawr 27. 2013

DIOLCH

Ar ran Eglwys Glanogwen a Llanllechid hoffwn ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd a chefnogodd y Bore Coffi a gynhaliwyd yn Neuadd Ogwen fore Sadwrn Tachwedd 10fed 2012. Diolch yn fawr i'r masnachwyr lleol am eu rhoddion hael. Diolch yn fawr. M. Jones (Ysgrifenyddes)

CAPEL BETHANIA

16 Rhagfyr:
Parchedig Gwynfor Williams
(5.30)

Ni chynhelir Oedfaon ym misoedd Ionawr a Chwefror 2013

Dymunwn holl fendithion y tymor i bawb

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Pob bore Sul am 8.00am - Cymun Bendigaidd Sul Cyntaf pob mis - "Llanast yn y Llan" (Gweler isod) Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaidd Cymraeg Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaidd dwyieithog Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaidd

Dydd Llun, Rhagfyr 24 - Noswyl Nadolig 4.00 y pnaen - Gwasanaeth Preseb 9.30 yr hwyr - Cymun Bendigaidd

Dydd Mawrth, Rhagfyr 25 - Diwrnod Nadolig 10.00 y bore - Cymun Bendigaidd Croeso cynnes i bawb i'r gwasanaethau uchod.

Llanast yn y Llan - Na nid llanast go iawn!! Rhyw fath o wasanaeth teuluol anffurfiol. Dewisir thema ar gyfer y gwasanaeth ac mae cyfle i brofi gweithgareddau ymarferol a chreu arddangosfa. Cyfle i blant ac oedolion gael hwyll wrth addoli. Ar

ddiwydd y gwasanaeth trefnir lluniau i bawb. Dewch draw ar Sul cyntaf y mis i weld beth sy'n mynd ymlaen.

Arch Noa.

Clwb bach yw hwn ar gyfer plant bach cyn oed ysgol. Mae yn cyfarfod yn Ysgol Aberceaseg pob bore Llun am 9.15am.

Bore Coffi yn Neuadd Ogwen

Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn er budd yr Eglwys yn Neuadd Ogwen bore Sadwrn, Tachwedd 10fed. Diolch o galon i bawb a fu yn trefnu ac yn gofalu am y stondinau, y baned a'r raffl. Diolch hefyd i bawb o'r gymuned a alwodd i mewn i gefnogi.

Cofion

Mae llawer o'r aelodau yn cwyno o ryw anhwylder neu'i gilydd. Anfonwn ein cofion atoch gan ddyddymuno adferiad buan i chwi gan edrych ymlaen i'ch gweld yn y gwasanaethau unwaith eto.

Dymuniadau gorau'r Nadolig a phob fendithion yr Wyl i holl drigolion Plwyfi Llanllechid a Glanogwen

Yr Eglwys Unedig Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Anfonwn ein cyfarchion arferol at y cleifion i gyd lle bynnag y bont ac i'r rhai sy'n disgwyl am driniaeth yn yr ysbyty. Gobeithio y byddwch i gyd yn gwella cyn daw'r Nadolig.

Ddechrau'r mis, cawsom golled eto fel eglwys wrth golli Doreen Jones, Bontuchaf. Roedd yn wraig dawel, dirodres iawn, yn weithgar yn yr eglwys tan y diwedd bron. 'Doedd hi ddim yn hoffi denu unrhyw sylw ati ei hun ond 'roedd wrth ei bodd yn y gegin ac yn glanhau. Mynegwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Gwyn, ei mab, a'r teulu.

Ar nodyn trist arall, fel yr oedd y Llais yn mynd i'r wasg, daeth y newydd am farwolaeth Brenda Owen, 12, Ffordd Ffrydlas – un arall o ferched hynod o weithgar a ffyddlon yr Eglwys. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrfa at ei gŵr, Selwyn, y plant a'r teulu i gyd.

Alwenna Puw oedd yn trefnu'r Cyfarfod Gweddi ddechrau'r mis, yn cael ei chynorthwyo gan Minnie Lewis, Rhiannon Efans a Sioned Williams. Thema'r gwasanaeth oedd heddwch.

Nos Fercher, Tachwedd 7, cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol yn festri Bethlehem, Talybont pryd y cawsom ddarlith ddiddorol gan Dr. William Lewis o Landegfan yn rhoi i ni beth o'i hanes yn gwneud gwaith meddygol dramor, yn bennaf yn Affrica. Llongyfarchiadau i Eglwys Bethlehem ar ddathlu 150 mlynedd a gofidiwn yn arw am lanast y llifogydd ar ôl yr holl waith ar gyfer y cyfarfodydd.

Cawsom ymweliad gan rai o weithwyr GISDA, Caernarfon yng nghyfarfod y chworiydd y noson wedyn. Cymdeithas yw hon sy'n ceisio helpu pobl ifainc seagl digartref. Diolch yn fawr i'r rhai a gyfrannodd roddion. Roeddent yn ddiolchgar iawn am bob dim ac am y rhodd ariannol gan y gymdeithas.

Teithiodd rhai ohonom i Borthmadog ddydd Mercher, Tachwedd 14 i'r cyfarfodydd blynyddol sy'n cael eu cynnal i drefnu ar gyfer Dydd Gweddi'r Chworiydd ym mis Mawrth. Diolch i Gwenno am ei gwaith yma ym Methesda dros y blynyddoedd a phob hwyl i Ceri wrth ddechrau gyda'r gwaith.

Bu aelodau'r Clwb Nos Fawrth wrthi'n brysur yn paratoi bocsys ar gyfer 'Operation Christmas Child'. Diolch yn fawr iddynt hwy, a chyfeillion, am gyfrannu mor hael at yr ymgyrch i roi Nadolig dipyn hapusach i blant llai ffodus na hwy.



Dyma lun o'r criw diwyd wedi cwblhau'r gwaith.

Dymunwn Nadolig Llawn i bawb ohonoch sy'n darllen y golofn hon.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

'LLENW'R CWPAN'

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
hanner dydd

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis
Peint a Sgwrs
Douglas Arms Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun pob mis

Y Gymdeithas Hanes



Dyma lun o Rhys Mwyn a'r Dr. Dafydd Roberts yn ystod noson ddiwyd a gafwyd yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda yn ddiweddar. Daeth Elin Pflur o raglen "Heno" yno i wneud eitem ac i gael sgwrs efo Rhys cyn ei ddarlith ar Hanes Canu Pop Cymraeg yn y Trefi Chwaryddol.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda
☎ 600965

Pen-blwydd Hapus

Ar ddechrau mis Tachwedd dathlodd Sheryl Davies, tan y Gaer ben-blwydd arbennig iawn.

Fe'i dathlodd mewn dipyn o steil gyda ffrindiau, sef 10 o nyrsus Ogwen, yn Llundain. Cawsant aros yn y Ritz, a chafwyd penwythnos i'w chofio. Daeth i ben gyda chinio gyda'r nos yn Odettes, bwyty Bryn Williams. Dymuniadau gorau i Sheryl oddi wrth y teulu i gyd.

Anfonwn ein cofion at Mrs Eileen Roberts Ffordd Carneddi sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymuna Mrs Marie Williams, 100 Ffordd Carneddi, ddiolch o

galon i bawb am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd i holl staff Plas Ogwen am eu caredigrwydd. Mae Marie yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda. Pw ffrindiau a chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau eleni.

Doreen Jones, Bontuchaf.

Dymuna teulu'r diweddar Doreen Jones ddiolch o waelod calon am y caredigrwydd a'r geiriau o gysur a dderbyniwyd ganddynt yn ystod eu profedigaeth diweddar. Hoffai Gwyn a'r teulu ddiolch i bawb a fu'n gofalu am Doreen yn y misoedd diwethaf, boed yn nyrsys lleol, nyrsys Hosbis a McMillan, and yn enwedig i'r genod o gwmini Gofal Llaw a fu'n gofalu amdani yn ystod y dydd. Maent yn gwybod bod Doreen wedi gwerthfawrogi eu caredigrwydd a'u cwmmiaeth yn fawr iawn. Csglwyd £650 mewn rhoddion er cof am Doreen a chyflwynwyd siec am y swm yma i fudiad Hosbis yn y Cartref.



Ar Hydref 13 ym Mhlas Hafod ger yr Wyddgrug, priodwyd Owen Arman, Bont Uchaf a Lisa Pearson o Swydd Gaerhirfryn. Hoffai teulu a ffrindiau Owen a Lisa Arman eu llongyfarch a dymuno'r gorau iddynt ar achlysur eu priodas ym mis Hydref. Cyfarfu'r ddau tra ym Mhrifysgol Manceinion ac maent wedi ymgartrefu yn Henllan ger Dinbych.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Dymunwn Dangnefedd yr Ŵyl i bawb yn yr ardal. Cofiw'n am nifer a gafodd problemau gyda dŵr wedi'r glaw trwm yng nghanol Tachwedd.

Llywyddiant Traethawd



Enillodd Huw Pritchard, Rachub y brif wobwr ar y cyd gyda myfyrwraig o Gaerdydd mewn gormest draethawd o dan nawdd 'Legal Wales' eleni. Mae Huw yn fyfyrwr Ph.D. yn Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Bangor, ac yn cael ei noddi gan Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Gofynwyd i'r ymgeiswyr ymateb i'r canlynol. 'Gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn arfer grymoedd deddfu primaidd, onid yw datblygiad awdurdodaeth ar wahan i Gymru yn anorfod? Ymatebodd Huw, drwy nodi na chafwyd unrhyw newid i'r awdurdodaeth drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nag unrhyw statud arall. "Er hynny," meddai "mae datblygiadau gweinyddol o fewn y llysoedd a'r gyfundrefn gyfreithiol yn cyd-fynd â datblygiadau cyfansoddiadol Cymru." Arweinwyd y panel beirniadu gan Syr John Thomas, Llywydd Adran Maine y Frenhines a chyflwynwyd y wobwr i Huw mewn cynhadledd yn Llandudno gan y Farwnes Hale, Ustus y Goruchaf Lys. Mae bellach yn ôl wrth ei ddesg yn cwblhau ei draethawd hir ar 'ddatganoli ym Mhrydain ac Ewrop.'

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Leon Williams, Maes Bleddyn sydd wedi derbyn triniaeth yn ysbyty Alder Hey, Lerpwl a hefyd at Griff Williams, Ffordd Llanllechid, yntau wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Cylch Ti a Fi

Mae Keilly a'r Pwyllgor yn anfon cyfarchion yr Ŵyl i'r plant a'u teuluoedd gan ddiolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hefyd am ddiolch i bawb a ddaeth i'r Noson Stundinau ac am y rhoddion a dderbyniwyd ar gyfer y noson. Rhoddwyd £100 o'r elw i Alys, merch Miriam, Ymwelydd Iechyd ym Methesda. Mae Alys heb fod yn teimlo'n dda iawn ers peth amser. Aeth gweddill yr arian at Gronfa'r Cylch i'w alluogi igario ymlaen a'r gwaith y flwyddyn nesaf.

Cyfarchion

Mae Vernon ac Iris Davies, Yr Ynys am ddyddio Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda at y teulu a chyfeillion ym mhobman. Ni fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni. Mae Mrs Betty Jones, Caer Groes hefyd am ddyddio Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w teulu a'i chyfeillion gan na fydd hithau yn anfon cardiau cyfarchion eleni. Dymuna Gwilym Rees Evans, Ceunant Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'w deulu, ffrindiau a'r cymdogion i gyd.

Y Ganolfan

Nos Fawrth, Hydref 30 cynhaliwyd noson fywiog o ddawnsio disco Calan Gaeaf. Daeth criw da yno a gwnaethpwyd elw at goffrau'r Ganolfan o £131. Mae Michael Williams am ddiolch i bawb a ddaeth yno i gefnogi, i Becws Cae'r Groes am y bara ac i Londis, Mabinogion, ac i Griff am roddion at y raffl.

Aeth elw y Raffl at gronfa Leon Williams, Maes Bleddyn sy'n derbyn triniaeth yn Alder Hey, Lerpwl. Trosglwyddwyd £175 i'r gronfa pan ychwanegwyd at hyn elw o 'gerdyn 'sgwâr cant' a aeth o amgylch Rachub. Enillydd y sgwâr oedd Jenna Tugwell. Mae'r Pwyllgor am ddiolch i bawb am eu haelioni.

Cydyndeimlo

Anfonwn gydymdeimlad at Selwyn, Ann a'r teulu, Hafan, Bron Arfon ar chlysur trist marwolaeth exhawer i Selwyn, sef Brenda, ym Mhenybryn.

CAPEL CARMEL

Gwasanaethau

16 Rhagfyr:
Oedfa Nadolig - 5.00pm
23 Rhagfyr:
Gweinidog - 2.00 a 5.00
30 Rhagfyr: Carolau - 5.00
6 Ionawr: Gweinidog - 5.00
13 Ionawr:
Gweinidog - 2.00 a 5.00

Yr Ysgol Sul 10.30 y bore
Dwylo prysur, nos Wener 6.30.

Croeso Cynnes i Bawb

Cydyndeimlad

Anfonwn ein cydyndeimlad at Heddwyn, Trefor a Pearl a'r teulu oll ar achlysur marwolaeth Jean Morris Cae'r Groes. 'Roedd Mrs Morris yn 89 mlwydd oed ac yn gymeriad hawddgar a chyfeillgar gyda phawb ac yn cymryd rhan ym mywyd cymdeithasol y pentref pan oedd yn gallu. Mawr yw colled yr ardal wrth golli cymeriad arall o'n plith.

CAPEL BETHEL

Gwasanaethau

16 Rhagfyr: Mr Alun Wyn Rowlands
23 Rhagfyr: Dr Tudor Ellis
Oedfaon am 2.00 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

Canu



Bu Beca, Lucy a Sophie yn rhan o Gŏr Ieuencid Mŏn a fu'n canu yn noson Plant mewn Angen yng Nghaerdydd. Buont hefyd yn recordio rhaglen gydag Aled Jones fydd yn cael ei darlledu ar Noswyl y Nadolig.

Capel Carmel



Mae prysurdeb garw yn yr Ysgol Sul y dyddiau yma wrth i aelodau'r ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur baratoi at Wasanaeth y Nadolig. Maent i gyd yn eich gwahodd i'r gwasanaeth ar Ragfyr 16 am 5 o'r gloch.



Clogyn gwyrdd bob un sydd gan y carolwyr yn y llun yma. Maent yn edrych yn ddel ac wrth gwrs yn canu'n swynol. Dewch yn llw i wrando amynt.

CANOLFAN RACHUB

Ar gael ar gyfer
Cyfarfodydd a gweithgaredd o
bob math

PRISIAU LLOGI

£10.00 am sesiwn hyd at 4 awr
£15.00 – Partion neu
benwythnosau

Cysylltwch â Godfrey
Northam
(600872) am ddyddiadau
rhydd

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Adref o'r ysbty

Braf yw clywed fod Myfanwy Jones, Gwernydd, wedi dod adref ar ôl treulio cyfnod yn Ysbty Gwynedd ac Ysbty Glan Clwyd. Rydym yn gyrru ein cofion atoch, ac yn gobeithio eich bod yn gwella'n dda. Cymrwch ofal yn awr.

Dathlu penblwydd abennig

Rydym yn gyrru ein llongyfarchiadau i Richard Alun Williams, Stryd Goronwy, sy'n dathlu ei benblwydd yn 70 oed y mis hwn. Pob hwyl iti ar yr achlysur arbennig, Richard, a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Daeth newyddion trist iawn i'r pentref pan glywyd am farwolaeth y ddiweddar Brenda Owen, Ffordd Ffrydlas. Roedd Brenda yn un o ferched y Gerlan, gan iddi gael ei magu yma. Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda'i phriod, Selwyn, a'i theulu i gyd yn eu profedigaeth fawr, ac, yn arbennig, aelodau o'i theulu sy'n byw yn y pentref. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad i Medwyn, Mari, a'r plant, Aled Wyn a Lowri Wyn, Rallt Uchaf, yn eu profedigaeth fawr o golli mam a nain annwyl

Pob cydymdeimlad i Vernon Jones, Allt Glanrafon yn ei brofedigaeth lem o golli chwaer

Cydymdeimlwn gydag Eurwen a Dafydd Morris, Y Gamedd Uchaf, yn eu colled fawr o golli chwaer yng nghyfraith annwyl

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr hefyd gyda Heledd a Dwynwen Jones, Penclwt, ar golli modryb hoff.

Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch pob un o blant yr ardal a gymrodd ran mewn unrhyw ffordd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Braf oedd gweld cymaint yn cymryd rhan ac yn cyfrannu i lwyddiant yr eisteddfod

Profedigaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth un arall o gyn-drigolion y Gerlan, sef y ddiweddar Alwenna Williams, oedd yn byw bellach ym Mangor, ond a dreuliodd flynyddoedd yn byw yn y Gerlan. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr gyda'r gŵr, Eifion, a'i merched, Dawn a Wendy, ac yn gyrru ein cofion atoch ar yr adeg trist hwn

Llifogydd

Yn dilyn glaw trwm yn ddiweddar rydym yn mawr obeithio na chafodd neb ddiffrod drwg. Bu dŵr yn lifo fel afonydd i lawr ellydd y Gerlan, a does ond gobeithio iddo fynd heibio pob drws, ac nid i mewn trwyddo. Mae gennym, yma, le mawr i ddiolch, gan fod sawl ardal gyfagos wedi dioddef yn enbyd o'r llifogydd, ac wedi cael difrod mawr. Does ond gobeithio na chawn ychwaneg o'r tywydd garw iawn hwn weddill y gaeaf

Dymuniadau gorau

Rydym yn gyrru ein cofion at bawb yn yr ardal sydd ddim yn teimlo'n dda, ac wedi dioddef unrhyw anhwylder, gan dymuno gwellhad llwyr ichi i gyd.

Nadolig Llawn

Ehedodd blwyddyn arall heibio, a dyma'r Nadolig ar ein gwarthaf! Rydym yn dymuno Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd Dda i bawb. Gobeithio y bydd 2013 yn flywyddyn lewyrchus ichi i gyd.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎ 353886

Profedigaeth

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mrs Elsie Armstrong ym Mhlas Gamedd, Llanberis (gynt o Dalybont) yn 89 mlwydd oed. Bu ei hangladd cyhoeddus yn Eglwys Maes-y-Groes ar ddydd Mercher, 7 Tachwedd gyda'r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent yr eglwys. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Olwen, Gwyn, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Bu Elsie yn ffyddlon iawn i'r gweithgareddau oedd yn mynd ymlaen yn neuadd Talgai cyn i'w gwaelled ei threchu - bydd chwithdod mawr ar ei hól.

Gwaelled

Anfonwn ein cofion anwylaf at y cleifion sydd yn wael yn eu cartrefi:- Ernie a Nerys Coleman, Jim a Beryl Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Lytham, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams. Llwyd wellhad i chi a gobeithio y cewch i gyd Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd well.

Eglwys Sant Tegai

Profedigaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Glyn Campell, 11 Erw Las, Bethesda yn dawel yn Ysbty Gwynedd yn 80 mlwydd oed ar 24 Hydref. Roedd yn briod ffyddlon i Hilda a thad cariadus i Lynne a'r diweddar Paul, tad yng nghyfraith Andy a thaid Elliott a Sam. Bu ei angladd cyhoeddus yn Eglwys Sant Tegai ar ddydd Iau'r cyntaf o Dachwedd gyda'r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Coetmor, Bethesda. Cydymdeimlwn a'r teulu oll yn eu galar.

Gwaelled

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at Mrs Jane Couch, Mrs Beryl Edwards, Mr Gwynne Edwards a Mr Harry Gross. Byddwn yn meddwl amdanoch yn ystod yr Ŵyl, a brysiwch wella. Rydym yn cofio hefyd am Mrs Betty Marshall sydd wedi cael llawdriniaeth i'w llaw yn ddiweddar ac yn gwella'n dda. Gobeithio i chi wyl gael pen-blwydd hapus ar ddydd Sul, 9 Rhagfyr, Betty. Hoffem yn fawr dymuno gwellhad buan i Mrs Glenys Price Roberts, Llanfairfechan, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbty Gwynedd ddiwedd mis Tachwedd. Anfonwn ein cofion anwylaf ati a hefyd at Merfyn a Gerallt.

Organ Newydd

Yn Eglwys Sant Tegai ar nos Sul, 11 Tachwedd cafwyd Gŵyl Gysegru'r Organ Newydd ac ail gysegru'r hen gapel gan y Gwir Parchedig Andrew John, Esgob Bangor. Cafwyd perfformiad ar yr organ newydd gan is-organydd Eglwys Gadeiriol Bangor, sef Mr Martin Brown. Roedd yr Hybarch Paul Davies, Archddiacon Bangor yn bresennol hefyd.

Diolch o galon i'r person dicer fu mor garedig a rhoi'r organ hardd yn rhodd i'r eglwys. Mae'r Ficer a Geraint yn cael pleser mawr yn canu'r organ - daliwch ati hogiau! Mae'r organ hon wedi ei chysegru er cof am yr Anrhydeddus Alice Douglas-Pennant a'r Anrhydeddus Hilda Douglas-Pennant a'r hol fodrybedd, Castell Penrhyn.

Ar ôl y gwasanaeth roedd lluniaueth ysgafn yn Neuadd Talgai - diolch i ferched yr eglwys am y croeso.

Gwasanaethau'r Nadolig

Ar nos Sul, 23 Rhagfyr am 6.00 o'r gloch byddwn yn cael ein gwasanaeth Naw Llith a Charolau - croeso cynnes i bawb. 24 Rhagfyr am 11.30 yr hwyr bydd Offeren Noswyl Nadolig Bore Sul, 30 Rhagfyr Gwasanaeth Unedig yn Eglwys Sant Tegai am 10.30

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr Llais Ogwan oddi wrth drigolion Llandygái.

Dathlu'r Nadolig

Mae'n siwr fod yna edrych ymlaen wedi bod at y Parti Henoed yn Neuadd Talgai ar brynawn Mercher, 12 Rhagfyr. Roedd y pentrefwyr yn cael eu cinio Nadolig hwythau hefyd ym mis Rhagfyr. Gobeithio i chi i gyd gael amser da a bod y bwyd yn plesio.

Bydd Ysgol Llandygái wedi cael ei Ffair Nadolig ar nos Wener, 30 Tachwedd a mawr obeithiwn y bydd yn noson lwyddiannus fel arfer.

Dymunwn Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r pennaeth Mrs Hughes, y staff a'r plant. Maent i gyd yn haeddu egwyl, a gwn o brofiad ei fod yn amser hectig iawn.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ 600689

Dymuniadau gorau

am Nadolig dedwydd i'r ardalwyr i gyd. Anfonwn ein cofion at bawb sydd mewn cartrefi nrsio, Mr John Jones, 4, Braichmelyn, a Mrs Myfanwy Morris, 3, Braichmelyn gynt. Rydym yn meddwl amdanant, ac yn gobeithio y caiff pawb iechyd dros yr Ŵyl. Anfonwch eich newyddion i'ch gohebydd, os gwelwch yn dda.

**Gyrfa Newydd!**

Eisiau gweithio efo plant ifanc? Cyfle i ennill cymhwyster Diploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant yn y gweithle ynghyd "a" chael grant hyfforddi tra'n astudio.

Hyfforddiant ar gael o 1af Ebrill 2013 - 31ain Mawrth 2014. Cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymuno yn y cynllun hyfforddi arbennig yma.

Ffonio Kerry
Arweinydd y cylch ar 07515860901

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Cydymdeimlo

Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth Glyn Owen, sef tad Einir, 18 Bro Emrys, yn ddiweddar. Estynnwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Ysbyty

Mae Rita Hughes, 7 Lônndŵr, wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ddiwedd Tachwedd. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi gyda'i phenglin newydd.

Eglwys Maes y Groes

Drwg oedd gennym glywed am farwolaeth Elsie Armstrong, gynt o Gae Gwigin, ar y dydd olaf o fis Hydref. Treuliodd ei blwyddoedd olaf ym Mhlas Gamedd, Llanberis, oherwydd gwaeledd.

Cynhaliwyd ei hangladd yn Eglwys Maes y Groes ar y 7fed o Dachwedd. Arweinwyd y gwasanaeth gan ein ficer, y Parchedig John Mathews, gyda Geraint Gill yn cyfeilio. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent yr Eglwys. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd yn eu colled fawr. Dymuna Olwen, Glyn, a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag at Elsie tra yn y cartref ac am y rhoddion tuag at Plas Gamedd.

Dathlwyd Gŵyl yr Holl Eneidiau ar yr ail o Dachwedd yn Eglwys Maes y Groes mewn gwasanaeth undebol rhwng y tair Eglwys.

Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y ficer ac fe gafodd y gynulleidfa gyfle i oleuo kannwyll er cof am eu hanwyliaid.

Cynhaliwyd Te Hydref yn yr Ysgoldy ar ddydd Sadwrn y 10fed o Dachwedd. Roedd yn brynhawn llwyddiannus, a diolch i bawb am ein cefnogi ar y diwrnod, ac am y rhoddion a'r anrhegion at y raffl a'r stondinau. Diolch hefyd i Phyllis Davies a'r fim am drefnu'r achlysur.

Gwnaed elw o £615 at yr Eglwys.

Llongyfarchiadau i Brian a Rita Thomas, Bryn Celyn, Gatws am ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd Daisy Fflur i Angela a David sydd yn byw yn Llanellwly. Mae'n siwr fod Poppy Haf wrth ei bodd yn cael cwmni ei chwaer bach newydd.

Capel Bethlehem, Talybont

Llanast y Llifogydd

O ganlyniad i'r difrod a achoswyd i'r capel a'r festri gan y llifogydd ar 22 Tachwedd, nid oedd yn bosib cynnal oedfaon ar 25 Tachwedd na 2 Rhagfyr, ac wrth i'r Llais fynd i'r wasg, doedd dim sicrwydd a fyddwn yn gallu dod yn ôl i drefn o hyn i'r Nadolig. Bu raid canslo popeth arall hefyd, yn cynnwys yr Ysgol Sul, Bwrlwm Bethlehem a'r Ffair Nadolig.

Ond ynghanol y llanast a'r siom 'rydym yn cyfrif ein bendithion, ac yn ddiolchgar am y consyrn a fynegwyd gan lawer yn ogystal â'r cymorth a gawsom pan oedd pethau ar eu gwaethaf. Diolch yn fawr i ficer ac aelodau Eglwys Maes y Groes am gynnig benthg yr Ysgoldy i ni pe byddai angen cynnal gwasanaeth arnom. Cawsom ein synnu a'n llawenhau bod cymaint o drigolion ifanc y pentref mor barod i'n helpu, ac mae'n diolch yn fawr i'r criw a ddaeth i'r capel a'r festri i godi'r carpedi gwlyb a'u llwytho i Land Rover Wil, Cochwillan.

Bu amryw o aelodau Bethlehem, ac aelodau o'u teuluoedd, yn gweithio'n galed dros ben, ac mae'r swyddogion yn ddiolchgar iawn iddynt am eu holl ymdrechion yn ystod yr argyfwng a ddaeth i'n rhan. Yn anffodus, nid y capel oedd yr unig le i ddioddef yn Nhalybont, gan i nifer o gartrefi fod o dan ddŵr, yn cynnwys cartrefi dwy o'n haelodau, sef Jean Hughes, Bryn Awel a Barbara Jones, i Dolhelig. Rydym yn cydymdeimlo â phawb yn yr ardal sydd wedi gorfod dioddef y fath lanast.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Cartref Newydd

Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i John a Pat Hughes, 14 Maes Ogwen yn eu cartref newydd yn Sir Fôn.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau cynnes i bawb o'r pentref fu'n cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni. Bu plant Ysgol Tregarth yn hynod o brysur yn cystadlu ac yn dawnsio'r Ddawns Flodau i enillwyr llenyddol a barddonol

yr Wyl. Da iawn chi i gyd. Beth am gael hanes rhai o'r enillwyr lleol?

Merched y Wawr

Lynda Pritchard, Rachub, a Janet Jones, Bethesda, oedd y ddwy wraig wadd yng nghyfarfod Mis Tachwedd o gangen Tregarth o Ferched y Wawr, yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun, Tachwedd 5. Mae'r ddwy yn grefftwragedd amryddawn dros ben ac yn ystod y noson cafwyd gweld enghreifftiau godidog o'u gwaith celfydd. Mae Lynda yn gyfrifol am greu gwaith yn defnyddio amrywiol ddefnyddiau a deunyddiau yn ogystal a gwaith cannhwylau. Enw ei chwmmi yw 'Howget' ac ymhlith y pethau mae'n ei greu mae calonnau lliwgar gyda gwahanol negeseuon arny nhw yn ogystal ac addurniadau Nadoligaidd amrywiol.

Creu Cardiau ar gyfer pob achlysur mae Janet ac mae'n gweithio dan yr enw 'Cardiau Maes Melyn'. Mae'n rhoi llawer o feddwl i greu ei chardiau unigryw ac fe fydd yn cydweithio gyda Lynda ar rai prosiectau i greu anrhegion Nadoligaidd ac ar gyfer achlysuron megis priodasau, bedydd, penblwyddi etc.

Roedd gwaith y ddwy ohonynt yn werth ei weld a diolchwyd ar ran y Gangen gan Alwenna Puw, Bethesda, gyda Enid, Rita, Myfanwy ac Alison yn gyfrifol am y baned ar ddiwedd noson ardderchog.

Bydd y Gangen yn dathlu'r Nadolig gyda phryd o fwyd yng Nghwesty Abbeyfield, Talybont, Nos Lun, Rhagfyr 3.

Ar Ionawr 7, 2013, bydd y gangen yn cyfarfod nesa a thestun y noson fydd 'Talwrn Gwahanol. Beth am ymuno gyda'r gangen yn Festri Shiloh am 7 o'r gloch.

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau'r Nadolig

16 Rhagfyr - 9.45yb -
Gwasanaeth Carolau
23 Rhagfyr - 9.45yb -
Cymun Bendigaid
25 Rhagfyr - Nadolig - 9.00yb -
Cymun Bendigaid
30 Rhagfyr - 10.30 yb -
Gwasanaeth i'r Plwyf yn Eglwys St Tegai, Llandygai

Clwb Cant Y Gelli - Tachwedd

£20 - 62 - Gareth Pritchard
£10 - 69 - Vera Jones
£10 - 95 - Alwenna Williams
£5 - 39 - Paul Smith

Priodas Paula a David



Ar ôl haf gwlypaf ers 100 mlynedd, braf iawn oedd gweld yr haul yn tywynnu dydd Sadwrn 22fed o Fedi 2012 - diwrnod priodas Paula Williams, merch Steven a Sharon 34 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, a David Owen, mab Alan a Valmai Bryntirion Bethesda. Cynhaliwyd y seremoni yn eglwys Santes Fair Tregarth dan wasanaeth y Parchedig J.G Matthews. Y morynion oedd Rhian, Leah, Emily, Lucy at Mali, gyda Max yn was back. Tony Parry oedd y gwas gyda Mathew Williams ac Ian Burgess yn dywyswyr. Bu'r brechwast priodas yng ngwesty Sant Siôr Llandudno a threuliwyd y mis mël yn San Francisco, LA ac Barbados. Llongyfarchiadau i'r ddau a dymunwn bob hapusrwydd i'r dyfodol. Hoffai David a Paula ddiolch o waelod calon i deulu, ffrindiau, a chymdogion am yr anrhegion, cardiau a dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Capel Shiloh, Tregarth

Bore Sul, Hydref 28, o dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams, bedyddiwyd Elysteg, merch fach Gwenan a Dylan Efans, Garw, Tregarth a chwaer Shwnamis a Caleb Llew. Mae Shwnamis a Caleb Llew yn ffyddlon dros ben yn Ysgol Sul Shiloh. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Bu dau ben-blwydd arbennig iawn yn Shiloh yn ystod Mis Tachwedd.

Ar Dachwedd 4 dathlodd ein Gweinidog, Y Parchedig Gwynfor Williams ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed. Anfonwn ein cyfarfchion cynhesaf ato gan ddymuno iechyd ac hapusrwydd iddo ef a'i briod Kitty yng Nghaerfarnon, a llawer blwyddyn eto o weindogaethu.

Ar Dachwedd 18 roedd ein organydd prysur yma yn Shiloh, sef D. Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, yn dathlu ei ben-blwydd yntau yn 80 mlwydd oed. Mae ei gyfraniad yntau i'r oedfaon yn amhrisiadwy a gwerthfawrogwn y gerddoriaeth hyfryd mae'n ei gyflwyno i ni fel cynulleidfau yn mhob oedfa. Iechyd a bendith i chwithau Wyn a diolch am bob cymwynas.

Gwasanaethau Shiloh
Yr Ysgol Sul am 10.30
Oedfa'r nos 5.30

Rhagfyr 16 am 4 o'r gloch
Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul
Rhagfyr 23 Gwasanaeth Carolau
Rhagfyr 24 Gwasanaeth Cymun
Noswyl Nadolig am 6o'r gloch

SYLWER OEDFAON NOS YN
2013 AM 5 O'R GLOCH

Ionawr 6
Parchedig Gwynfor Williams
Ionawr 13
Parch Harri O. Jones, Ll'pwll
Ionawr 20
Parch Phillip Barnett, Deganwy
Ionawr 27
Islwyn Hughes, Llangoed

Cyfarchion Nadolig

Mae'n ddrwg iawn gan Mrs. Lily Aelwen Richardson, 24 Ffordd Tanrhiw, na fydd yn medru anfon cardiau Nadolig eleni. Mae'n anfon ei dymuniadau gorau at bawb gan obeeithio y byddant yn cael Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Hydref

44	Linda Owen	£15
52	Richard Griffiths	£10
7	David Hadfield	£5

Mis Tachwedd

54	Sian Beidas	£15
51	Eleri Jones	£10
14	Val Hayward	£5

Mis Rhagfyr

9	Sara Oliver	£15
38	Enid Roberts	£10
59	Dafydd V Jones	£5

Bonws Nadolig

12	Sulwen Jones	£15
----	--------------	-----

Canolfan Tregarth

Nid oes neb yn defnyddio'r ganolfan ar bnawn Mercher ar hyn o bryd, ac felly os oes rhywun eisiau llogi'r ganolfan, yna cysylltwch â Peter Roberts ar 01248 602123 neu Angharad Williams ar 601544

Cylch Meithrin Tregarth

Ers hanner tymor mae plant Cylch Meithrin Tregarth wedi bod yn brysor iawn yn dilyn thema 'Teganau'. Diolch i'r Antis i gyd am eu holl waith gyda'r plant; maent wedi mwynhau chwarae efo Jac yn y boc go iawn pryd mae'r plant yn cymryd tro i chwarae rôl y Jac!

Diolch i bawba wnaeth helpu efo bore coffi'r Cylch ar Dachwedd 24ain. Casglwyd ychydig o arian tuag at y cylch a mwynhawyd cymdeithasu gyda'r rhieni, neiniau, teidiau a ffrindiau'r Cylch. 'Rwan edrychwn ymlaen at ein disco Nadolig efo Siôn Corn ar Ragfyr 21ain.

Yn dilyn ein cyd-weithio gydag Ysgol Tregarth ar gyfer y daith gerdded noddedig, mae plant Cylch Meithrin Tregarth wedi derbyn gwahoddiad gan yr ysgol i gymryd rhan yn eu cyngerdd Nadolig am y tro cyntaf. Pob hwyl i'r plant ar gyfer eu perfformiad.

Bydd Cylch Meithrin Tregarth yn ail-agor ar ôl y Nadolig ar Ddydd Mawrth, Ionawr 8fed.

A oes gennych chiw blentyn 2oed neu hŷn? Beth am i'ch blentyn ymuno â ni? 'Rydym yn cymryd enwau 'rwan ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Ti a Fi Cylch Meithrin Tregarth

Mae Ti a Fi Cylch Meithrin Tregarth wedi ail-sefydlu efo llond neuadd o blant a babis. 'Rydym yn cyfarfod yn Neuadd Canolfan Gymunedol Tregarth bob bore Gwener rhwng 10 a hanner dydd. Yn ystod amser 'Ti a Fi' 'rydym yn dilyn thema 'Y Nadolig' gyda chwarae, storïau a chreffft. Mae croeso cynnes i bawb i ymuno efo ni. Mae na gyfle hefyd i siarad gyda'r ymwelydd lechyd neu pwysu eich babi a chael paned.

Cylch Meithrin Tregarth (Rhan o'r Mudiad Ysgolion Meithrin)

Dydd Llun - Dydd Gwener
9.00 - 12.00 y bore: £6 y sesiwn.
Clwb Cinio:

£4 y sesiwn
(plant Meithrin Ysgol Tregarth yn unig)

Ti a Fi Cylch Meithrin Tregarth
(ac ymwelydd Iechyd)
Dydd Gwener 10.00 -12.00 y bore.

Rhif Ffon:
01248 602802 / 07825406640

Cyfnod yn yr Ysbyty

Gwellhad llwyr a buan i Mrs Maureen Roberts, 42 Tal y Cae, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well Maureen.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Olga a Haydn Davies, Hen Berllan, Dob, sydd wedi dod yn Hen Nain a Thaid i Mabli, sef merch fach i'w wŷr Iestyn a'i bartner Hannah, yn Wrecsam. Llongyfarchion i Nain a Thaid Bethesda hefyd, sef Susan a Michael Stokes, Allt Penbryn a'r holl deulu.

Glasiñfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasiñfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol o dan arweiniad Mrs Ingrid Farrer ar Dachwedd y 14eg. Wedi croesawu'r aelodau, llongyfarchwyd Mrs Jean Pierce sydd wedi ymuno â Chyngor Cymuned Pentir, a chroesawyd Mrs Sarah Flynn yn ôl ar ôl gwaeledd.

Wedi'r adroddiad blynyddol a'r adroddiad ariannol cawsom adroddiad y llywydd. Braf oedd clywed i'r Sefydliad gael blwyddyn lwyddiannus gyda 31 o aelodau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Ar ôl ethol swyddogion am y flwyddyn nesa roedd 'na groeso cynnes i Mr Alun Pritchard ein gŵr gwadd sydd ddim yn ddiethr i ni oherwydd bu'n diddorir aelodau flwyddyn yn ôl yn adrodd ei hanes yn gwirfoddoli yn Kenya. 'Roedd yn ymwneud â gwaith canmoladwy iawn sef helpu teuluoedd sydd wedi eu heffeithio gan y clefyd AIDS.

Dilyniant i'r gwaith yma oedd ei sgwrs ar ôl bod yn Kenya am ddeng wythnos ddechrau'r

flwyddyn yn helpu deg teulu (sef mam a'i phlant) i godi tŷ, ei ddodrefnu, gofalu eu bod yn hunanddigonol, troi sawl pistyll yn ganolfan dŵr glân i'w yfed a gofalu am addysg i bob plentyn.

Sut meddwch chi mae hyn yn bosib? Wel, trwy garedigrwydd dyn fel Alun Pritchard a chriw o bentrefwyr mewn ardal ar wasgar yn Kenya. Ni allem gredu fod Alun mor frwdfrydig yn y gwaith anhygoel, a da oedd deall fod yna gartrefi i blant amddifad erbyn heddiw yn Omwabini trwy gefnogaeth eglwysy o'r Amerig. Edrychwn ymlaen at ei glywed eto gyda'i hanesion diddorol a dymunwn bob lwc a llywyddiant iddo.

Diolch i Mrs Margaret Hughes am baratoi paned ac i Mrs Janet Rees am y diolchiadau.

Cawn gyfarfod am ein cinio Nadolig mis nesa ym Mhlas Menai, ond yn y cyfamser dymunwn Nadolig Llawen i bawb.

Cydyndeimlad

Bu farw Mr Glyn Owen, 11 Caerhun ar 17 Tachwedd yn dawel yn Ysbyty Gwynedd. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent Pentir ar 23 Tachwedd. Estynnwn ein cydyndeimlad â'r teulu yn eu galar a'u colled

Yn ddiweddar hefyd bu farw Mr Alf Newby, a arferai fyw yn 2 Bryn Pwll, Waen Wen, ac yntau yn 99 oed. Yn ffrodor o Lerpwl bu'n byw yn yr ardal am rai blynyddoedd, cyn symud yn ôl i Lerpwl. Yr oedd ef a'i wraig Nin yn cymryd rhan mewn amryw o weithgareddau yn yr ardal, yn enwedig Sioe Glasiñfryn.

Bingo

Cynhaliwyd Bingo a Noson Goffi yn y Ganolfan ar 16 Tachwedd gyda'r elw yn mynd tuag at Serena Pickavance, merch fach Nigel ein postmon lleol, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Alder Hey, Lerpwl. Codwyd £105, gyda diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chefnogaeth. Cynhelir y Bingo Nadolig ar 7 Rhagfyr, gyda'r elw yn mynd at "Help for Heroes", elusen sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth i filwyr a'u teuluoedd sydd wedi dioddef o achos rhyfel.

Clwb Cant - Tachwedd

£20 - 59 - Geraldine Cyster
£10 - 32 - Eleri Simpson
£5 - 11 - Alwyn Williams

Pwyllgor y Ganolfan

Bu cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan ar nos Fercher, 21 Tachwedd, o dan ofal y Cadeirydd, Elfed Roberts. Trafodwyd nifer o bynciau gan gynnwys y problem o yrrwyr sydd ddim yn defnyddio'r Ganolfan yn parcio eu ceir serch hynny ym maes parcio'r adeilad. Pasiwyd y dylid gosod arwydd sy'n atgoffa pawb mai maes parcio ar gyfer defnyddwyr y Ganolfan yn unig yw hwn.

Glasinfrun (parhad)

Penderfynwyd hefyd na fydd y ffoedd ar gyfer defnyddio'r Ganolfan yn cael eu codi am flwyddyn arall. Diolchodd y Cadeirydd i bawb sy'n gweithio'n galed i sicrhau fod y Ganolfan mewn cyflwr da ar gyfer ei defnyddio gan bobl yr ardal. Mae'r Ganolfan yn cael ei defnyddio gan nifer o gymdeithasau a dosbarthiadau a hefyd ar gyfer partion preifat. Dylai unrhyw un sy'n dymuno llogi'r Ganolfan gysylltu â'r Trysorydd, Mrs Mair Griffiths, ar 01248 352966.

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 352835

Gair o ddiolch

Dymuna Mrs Iola Hughes, 107 Cae Glas ddiolch i bawb a fu'n gefn iddi yn ystod yr wythnosau y bu Ivor ei gwr yn Ysbyty Walton, Lerpwl ac Ysbyty Gwynedd. Erbyn hyn mae yn Ysbyty Eryri, Caernarfon ac yn raddol wella. Gan nad yw'n gyrru car bu'n ddibynnod ar deulu a chyfeillion i'w chariot i'r ysbytai. Hoffai ddiolch iddynt i gyd ac yn enwedig i Mr Evan Owen Bro Rhiwen a fu yn eithriadol o garedig wrthi.

Dymuno gwellhad

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Ann Roberts, 4 Caeau Gleision yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Walton. Ein gobaith yw y caiff wellhad llwyr a buan. Gwyddom y caiff pob cymorth a gofal gan Gareth a'r plant.

Clwb Rhiwen

Bu dau gyfarfod yn ystod y mis gyda'r aelodau yn gofalu am y dda. Cafwyd sesiwn Bingo yn y cyntaf gyda Deidre yn galw'r rhifau. Gan nad oedd unrhyw un yn cymryd y gemau'n rhy ddifrifol cafwyd llawer o hwyl ac erbyn y diwedd roedd bron pawb wedi ennill gwobr. Diolchwyd I Deidre am alw ac I Ann am ofalu am y gwobrau.

O rig o ddarllen barddoniaeth a gafwyd yn yr ail. Sawl un aelod yn darllen ei hoff gerdd yn Gymraeg a Saesneg. Diddorol oedd sylwi cyfaint o amrywiaeth a gafwyd. Ambell gerdd yn ddeithr i'r mwyafrif ond eraill yn fwy cyfarwydd gyda'r aelodau yn tueddu i gyd-lefaru'r gerirau gyda'r darlennydd.

Fferm Tŷ Mawr Llanddeiniolen fydd lleoliad cinio Nadolig y Clwb.

Diolch yn dilyn llawdriniaeth

Dymuna Mair, Gwauntydd, Hafod Lon, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd wedi triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Postmon yn arall gyfeirio

Wedi blynyddoedd o ddsbarthu llythyrau yn yr ardal, penderfynodd Colin gefnu ar y swydd a sefydlu busnes fel barbwyr yn Stryd y Deon, Bangor, tros y ffordd i'r Octagon. Er y daw'r llythyrau i'n tai fel cynt bydd colled ar ôl Colin. Yr oedd yn llawer mwy na dosbarthwr llythyrau, roedd yn barod iawn ei gymwynas yn ogystal â hynny i bawb yn ddiwahân. Dymunwn iddo bob llwyddiant yn ei fenter newydd.

Merched y Wawr

Yn dilyn cyfarfod Tachwedd y gangen, bydd yr aelodau yn llawer mwy medrus wrth baratoi addurniadau Nadoligaidd eleni. Yr un a ddaeth i'n hyfforddi oedd Pat Jones o Frynrefail ac fe'i croesawyd yn gynnes gan Helen Bradley ein Is-lywydd.

Dangosodd wahanol ddulliau o baratoi addurniadau i harddu a chyfleu naws y Nadolig. Daeth a defnyddiau gyda hi yn ogystal fel y cai pawb gyfle i baratoi addurn o'i ddewis ei hun.

Diolchwyd i Pat Jones am noson gynhyrchiol gan Dilys. Megan Wyn a Linda ofalodd am y baned. Cyfeiriodd Helen at waeledd ein Llywydd, Ann Roberts gan ddymuno iddi adferiad llwyr a buan.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Bu Clwb y Mynydd ar drip i Gaer i wneud dipyn o siopa Nadolig. Cafwyd diwrnod braf, a phawb wedi mwynhau, gan ddod adref gyda llu o baciau! Diolch i Derfel Owens, Rhiwlas, am ei garedigrwydd, ac am ei ofal drwy'r flwyddyn – dymuniadau gorau a Nadolig Llawen i chwi.

Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn Eglwys St. Anns a St. Mair, pryd y daeth llu i ddathlu a chael paned a mins pei. Enillwyd y fasedg o ddanteithion gan Gwenda Evans. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Anfonwn ein cofion at bawb sydd ddim yn rhy dda ar hyn o bryd – dymunwn adferiad buan i chwi.

Bydd Clwb y Mynydd, a'r Clwb Trefnu Blodau, yn ail-ddechrau ym mis Chwefror, gan fawr obeithio y cawn dywydd gwell!

Hwyl dros yr Ŵyl, a Blwyddyn Newydd fendithiol i chwi i gyd.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Rhag. 16: 9.45 Gwasanaeth "Naw Llith a Charol"
Rhag. 23: 9.45 Cymun Bendigaid
Rhag. 24: 6.00. "Wrth y Preseb" - Gwasanaeth Nadolig i'r Plant
11.30. Cymun cyntaf y Nadolig
Rhag. 30: 10.00 Cymun - Eglwys St. Cedol, Pentir.
(Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

2013
Ion. 6: 9.45 Gwasanaeth Teuluol - Cristingl
Ion. 13: 9.45 Cymun Teuluol

Cynhelir "Noson o garolau a Mins peis" nos Wener, 14eg Rhagfyr am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb i ymuno yn y carolau ac i fwynhau paned a mins pei.

Diolch i bawb a gefnogodd y "Ffair Nadolig" er gwaethaf y tywydd. Enillydd y "Fasedg nwyddau Nadolig" oedd Mrs. Gwenda Evans, Mynydd Llandygái.

Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd. Dymunwn Nadolig Llawen i bawb a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion oll.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

O'r Diwedd!

Mewn cyfarfod yn ystod mis Hydref, cyflwynodd swyddogion o adran Drafnidiaeth Cyngor gwynedd eu cynllun ar gyfer gwelliannau i'r A4244 drwy gymuned Pentir i gynrychiolwyr o Parchu Pentir a Chyngor Cymuned Pentir yn dilyn ein hymgyrch hir, a hefyd cwynion y Cyngor Cymuned dros y degawdau.

Mae cynllun Cyngor Gwynedd yn cynnwys nifer o fesuriadau mewn ymateb i'n gofidion, ac mae cais wedi ei wneud am gopi o'r cyflwyniad, sydd yn rhoi manylion y cynlluniau yma, er mwyn cael ei roi ar wefan Parchu Pentir i bawb gael ei weld.

I grynhoi'r cynlluniau:

- terfyn cyflymder "cynghorol" ar y lôn, gyda marciau amlwg a "rumble strips" ar y ddwy ochr i'r gymuned.
- arwynebedd lliwgar atal sgidio ar y lôn ger cyffyrdd Hen Gapel a'r Ficerdy.
- llwybrau llydan yn cael eu hadeiladu rhwng Rhyd y Groes a Phentir a rhwng Pentir a chyffordd Rhiwlas.
- y llinell goch sydd yng nghanol y lôn ger Rhyd y Groes yn cael ei hystyngiadau cyn belled â chyffordd Rhiwlas.
- marciau melyn ar y lôn ger y safle bws ger Hen Gapel (mae marciau tebyg wedi eu addo i'r safle bws yn sgwâr Pentir hefyd).
- Cynigwyd y dylai'r llwybr o sgwâr Pentir tuag at y briffordd fod yn destun prosiect cymunedol - plannu ayyb.

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi cyllid tuag at y gwaith yma ac mae'r gwaith i'w gwblhau cyn mis Mawrth 2013. Maent yn hyderus y bydd y gwelliannau yn dwyn i sylw gyrrwyr fodolaeth y gymuned, yn gwella'r cysylltiad rhwng y pentrefi (Pentir, Rhyd y Groes a Rhiwlas), yn lleihau achosion o oryrru, lleihau tebygolrwydd achosion diogelwch ar y cyffyrdd, gwella trafnidiaeth gyhoeddus ac yn esmwytho gofidion y cyhoedd.

Bydd y sefyllfa yn cael ei monitro'n fanwl er mwyn asesu a fydd y mesuriadau yma'n llwyddiannus neu beidio.

Gwobrwyo

Llongyfarchiadau i Menai, Bryn Meddyg, Pentir a Marged o Greigfryn Pentir ar gael eu gwobrwyo yn ddiweddar yn Ysgol Tryfan. Gwobrwywyd Menai am fod yn un o'r disgyblion gorau yn nghyfnod allweddol 3 ym mlwyddyn naw. Enillodd Marged wobwr am fyfyrwraig y flwyddyn, blwyddyn naw. Dalier ati genod.

Brwydr y Bandiau

Daeth grŵp Yr Ayes yn ail yng nghystadlueaeth Brwydr y Bandiau Eisteddfod Bro Morgannwg eleni. Mae Leah, Creigfryn, Pentir a Lewis, Ty'n Llwyn, yn aelodau - Leah ar yr allweddellau a Lewis ar y drymiau. Llongyfarchiadau, ac edrychwn ymlaen yn eiddgar i glywed am eich perfformiadau nesaf.

Diolch

Hoffai Anwen gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i deulu a ffrindiau am eu cefnogaeth tra y bu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac am y geriau caredig yn Llais Ogwan fis Hydref. Anfonwch unrhyw newyddion ar gyfer Llais Ogwan at Anwen cyn Dydd Mercher cyntaf y mis os gwelwch yn dda.

Gwellhad

Mae Pat Cook, 4 Rhyd-y-Groes, wedi treulio amser yn Ysbyty Walton, Lerpwl yn ystod y misoedd diwethaf.

Mae ffrindiau lu Pat wedi bod yn dilyn ei hynt drwy ymweld â hi yn Walton ac e-bostio. Braf yw cael dweud fod Pat wedi dod yn agosach at adref erbyn hyn ac yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Pleser oedd gweld gwên ar wyneb Pat yn ddiweddar, a'i brwdfrydedd i ddod yn ôl i Ryd- y- Groes. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu adref

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ffion James a Gwion Owen, Rhif Pump, Rhyd-y-Groes, Pentir - Ffion ar ei phenodiad diweddar yn athrawes Gymraeg yn Ysgol Friars Bangor a Gwion ar ei phenodiad yn ddirprwy bennaeth Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst.

Eglwys Sant Cedol, Pentir

Clwb 100 – Mis Hydref

1af
Rhif 42 Helen Burbage, Rhiwlas
2ail
Rhif 69 Dylan Griffiths, Pentir
3ydd
Rhif 58 Eirlys Jones, Rhiwlas

Clwb 100 – Mis Tachwedd

1af
Rhif 53 Pamela Jones, Llanddeiniolen
2ail
Rhif 27 Ann Illsley, Pentir
3ydd
Rhif 9 Beryl Williams, Bethesda

Gwellhad

Fel Eglwys anfonwn ein cofion at Anti Maggie, Mai a Mair – y dair wedi treulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Brysiwch wella! Yr un yw'r cofion at Sharon, Anwen, Pat Jarvis a Pat Cook.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys at Brian, Melfyn, Einir a'r teulu olla r farwolaeth Mr Glyn Owen, Caerhun, tad a thaid annwyl iawn.

GWASANAETHAU

Pob bore Sul am 9.45am

16 Rhagfyr – Cymun Bendigaid
23 Rhagfyr – Boreol weddi
24 Rhagfyr
11.30pm - Cymun Bendigaid
Noswyl Nadolig
25 Rhagfyr
10.00am - Cymun Bendigaid ar y cyd Eglwys Crist Glanogwen
30 Rhagfyr
10.00am – Gwasanaeth ar y cyd - Cymun Bendigaid. Yr unig wasanaeth yn y Plwyf
6 Ionawr – Cymun Teuluol
13 Ionawr – Boreol weddi

O'r Cyngor

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

Cynhaliwyd cyfarfod Tachwedd yng Nghanolfan Tregarth gyda'r Cynghorydd Rhys M Llwyd yn cadeirio.

Parheir i fod yn bryderus oherwydd cyflymder trafniadaeth ar y ffordd i gyfeiriad Pont Tŵr a phenderfynwyd holi Adran Briffyrdd y Cyngor Sir ynghylch yr arolwg cyflymder a gariwyd allan. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn parhau i ystyried materion parcio ar Ystad Bro, Syr Ifor. Cysylltwyd â'r Gwasanaeth Tân ac Achub gan wneud cais am leoli peiriant diffodd tân ar gyfer ffyrdd culion yr ardal ym Mangor a hefyd ynglŷn â chyflenwad dŵr gogyfer a diffodd tân.

Cysylltwyd hefyd gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â chael blwch halen graeanu ar Allt St. Anns ac ynglŷn â'r dŵr sy'n llifo yng ngwaelod yr allt.

Mae'r tir gerllaw Arafon Mynydd Llandygai wedi cael ei dacluso gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd ac mae'r gwaith atgyweirio a gwella'r llochesi bws yn myned rhagddo.

Hysbyswyd y Cyngor Sir o goed yn tyfu i'r ffordd ac arwyddion wedi'u difrodi. Penderfynwyd gofyn i'r Cyngor Sir ystyried darparu mynediad i'r Lôn Las drwy'r agoriad yn y wal gerllaw y Felin Fawr.

Trefnwyd i'r cadeirydd gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod gydag Un Llais Cymru ynglŷn â materion yn ymwneud â'r Grid Cenedlaethol.

Cafwyd ar ddeall gan Lywodraeth Cymru eu bod yn ail edrych ar y wybodaeth a dderbyniwyd ynglŷn â'r Parthau Cadwraeth Moroi. Mae'r Cyngor Sir yn paratoui asesiad amgylcheddol Strategol yn dilyn y Ddeddf Rheoli Dŵr a Llifoedd.

Mae ymholiadau ar droed parthed bwriad y Cyngor Sir i greu llwybr ceffyl ar Ystad Pars Bryn Cegin i gysylltu â Llwybr Arfordirol Cymru a'r Lôn Las.

Cynrychiolwyd y Cyngor ar Dim Prosiect Bangor gan y Cynghorydd Dafydd Owen.

Gwnaed ymholiadau ynglŷn â phlannu a thorri coed. Diolchwyd i'r Cyngor am gefhogaeth i'r Cyngor Sir ynglŷn a Gorchymnion Rheoli Cŵn.

CYNGOR CYMUNED BETHESDA

Llifogydd

Daeth Mr Gwyn Moseley, o Asiantaeth yr Amgylchedd, atom nos Iau, Hydref 25, i drafod Cynllun Cymunedol i baratoi ar

gyfer y posibilrwydd o lifogydd. O gofio tywydd y noson honno, dyna beth oedd amserol - ychydig a feddyliem y buasai'r senario'n dod yn ffaith ymhen ychydig ddyddiau! Erbyn hyn mae'r llifogydd wedi cilio, ond mae'n rhaid bod yn barod rhag ofn i ni gael rhagor o law trwm. Yr ardaloedd sydd yn wynebu'r bygythiad mwyaf, yn ôl Mr Moseley, yw Llawr y Nant a Chil Caseg.

Mae'r Cyngor yn awyddus i gael gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiad lle y bu gorlifiad o afon neu nentydd, neu ddŵr yn llifo o dir uchel drwy eiddo unrhyw un mewn unrhyw ardal o fewn dalgylch Cyngor Cymunedol Bethesda. Y bwriad yw ceisio paratoi ymlaen llaw, a hefyd helpu pan fydd llifogydd yn digwydd.

Cysylltwch â'r Cynhorwyr isod: Y Gerlan:

Y Cynghorydd Dyfrig Jones
(01248 605 468)

Ogwen:

Y Cynghorydd Gwilym Owen
(01248 600 530)

Y Cynghorydd Walter Williams
(01248 601 167)

Rachub:

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
(01248 605 365)

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Yng nghanol mis Tachwedd, aeth rhai o aelodau'r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Arfin, pryd dewiswyd Susan Davies o Hen Barc i gynrychioli'r etholaeth mewn cyfarfodydd fforwm Polisi Plaid Lafur Cymru. Yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd tystysgrif i Peter Clarke am dros 50 mlynedd o aelodaeth weithgar ddi-dor. Hefyd, penderfynwyd rhoi cefnogaeth i ail ddewis Derek Vaughan A.S.E. fel yr ymgeisydd llafur cyntaf yn etholiadau Ewrop.

Ar ddiwedd y mis, cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol yng nghanolfan Cefnfaes i dderbyn gohebiaeth a chlywed adroddiadau am waith y cynghorau a.y.b. (e.e. Cyngor Gwynedd yn hybu prosiectau cyfalafol, Cyngor Bethesda yn cynnal cystadleuaeth ffenestri siopau Nadolig a chyngor Llandygai yn trefnu gwaith trwsio llochesi bysiau) yn ogystal â gwneud trefniadau terfynol ar gyfer Ffair y Nadolig.

Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod y gangen ar nos Fawrth, Tachwedd 27, yng Nghanolfan y Cefnfaes.

Y prif drafodaeth fu'r problemau a achoswyd gan y tywydd enbyd a gafwyd ddiwedd mis Tachwedd. Adroddodd y Cynghorydd Dafydd Meurig y bu llawer o ddiffrod mewn tai, Capel Bethlehem a llawer o'r ffyrdd o amgylch Tal y Bont yn ogystal a thai yn Llanllechid a ffordd Tŷ'n Hendre. Ar ei gais bydd Alun Ffred A.C. yn ymweld â'r safleoedd a thrigolion y pentref.

Adroddodd y Cynghorydd Ann Williams y bu hi yn ymweld â thrigolion Bethesda ac wedi bod mewn cysylltiad gyda Chyngor Gwynedd ynglŷn â llifogydd mewn cartrefi yn ei ward. Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith yn ystod y cyfnod hwn.

Croesawyd y newyddion fod bysiau Arriva yn awr yn fodlon parhau i deithio i'r Gerlan ar ôl chwech yr hwyr, ond mae cryn bryder o hyd am y sefyllfa parcio yn y pentref. Bydd cynghorwyr Plaid Cymru yn ystyried y mater yn ddwys ac yn ymgynghori o'r newydd gyda golwg ar geisio datrys rhywfaint ar y broblem.

Daeth y newyddion bod Cyngor Gwynedd yn cymryd perchnogaeth o 7 pont a thwnnel ar Lôn Las Ogwen a gobeithir gwneud gwaith arnynt yn fuan.

Diolchodd y trysorydd i bawb a fu'n gweithio i drefnu a chynnal yr Ocsiwn ar ddechrau Tachwedd, yn enwedig Dafydd Meurig, a hefyd i Huw Jones yr ocsiwniar. Cafwyd noson hwyliog – ac elw i goffrau'r gangen. Diolch i swyddogion y Clwb Rygbi am eu cymorth.

Bydd Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen yn cynnal Noson Dwynwen ar nos Wener, Ionawr 25 yn y Clwb Rygbi gyda cawl a chân. Cadwch lygad am fanlyion, bydd yn noson hwyliog iawn.

OWEN'S TREGARTH
Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
 Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
 07761619475
 pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies
Plymio a Gwresogi
 Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
 Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640
01248 601 466

WU SHU KWAN


Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
 yng Nghanolfan
 Gymdeithasol
 Tregarth bob
 nos Fercher
 6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
 â'r hysbyseb hwn hefo chi

◆ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ◆
 Manylion gan Jake neu Elena
 Fitzpatrick - 01248 602416
 neu galwch heibio'r dosbarth

Tudur Owen, Roberts, Glynne
a'u cwmni



**DEWCH I WELD
 EICH
 CYFREITHIWR
 LLEOL**

SGWÂR BUDDUG
 STRYD FAWR
 BETHESDA
 GWYNEDD
 LL57 3AG

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
 AM DDIM

BETHESDA
 01248 600171
 torg@hotmail.co.uk

EWYLLYSIAU A
 PHROFIANT
 SYMUD Tŷ

**MODURDY
 FFRYDLAS**



Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
 ◆ PROFION M.O.T. ◆

GWASANAETH ◆ ATGYWEIRIO
 ◆ TEIARS A BATRIS ◆
 GWASANAETH TORRI I LAWR
 NEU DDAMWAIN

600723
Ffacs: 605068

**Gorsaf betrol
 BERAN**
 Deiniolen
 Ffôn: Llanberis 871521
 Ar agor bob dydd 24/7

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
 Cylchgronau • Papurau newydd
 Cardiau pen-blwydd • Melysion
 Tocynnau loteri
 Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
 trydan, nwy, ffonau symudol,
 trwyddedau teledu ayyb

L. Sturrs
a'i feibion
 sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
 Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953
 Ffacs: 602571
 lsturrs@googlemail.com

Malinda Hayward
(Gwniadwraig)
 Awel Deg
 Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
 - trwsio, altro ac ati -

**Ffoniwch
 01248 601164**

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
 2 Hen Aelwyd, Bethesda
600633
 (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith felt a pitsio.
 Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
 Gadwch i ni gynnig pris rhesymol am
 waith diguro.

"J.R."
SGAFFALDWYR
 Yr Iard, Ffordd Stesion
 Bethesda

Ffôn: (01248) 601754
Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

DAFYDD CADWALADR
 Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
 Ysglodion pren i'r ardd
 Ffensio a thorri coed
 Asiant system gwresogi trwy
 losgi coed

01248 605207

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun – Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 – 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

Newydd agor ym Methesda ym mis Medi

Yn arbenigo mewn trin gwallt

merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio

(rasal "cut throat")

Mwy o fanylion gan Wendy ar 07748206817

Pob math o waith trydanol**Huw Jones****Ymgwymerwr Trydanol**Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

**STEPHEN
JONES**
†
**TREFNYDD
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd**

Gweithdy Pen-y-bryn

Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455

gartref 602455

personol 07770 265976

Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos**CAFFI COED Y BRENIN**

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

**Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)**

Cinio arbennig bob dydd Iau**Bwyd i'w gario allan**

**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)**

**Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd**

Prisiau rhesymol**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)**

Rydym yn croesawu partion
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.

Beth am eich Parti Nadolig?

Ffoniwch**01248 602550**e-bost : karena@agoriad.org.uk**Gallai eich hysbyseb****Chi****fod yma****Cysylltwch â
Neville Hughes 600853****LONDIS
BETHESDA**

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus**Gwasanaeth personol****gyda'r pwyslais ar y cwsmer**

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**7 diwrnod yr wythnos****Gareth Williams
Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707**GWASANAETH DYDD A NOS****Oriel Cwm**

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o

bob math ar gael ar y safle

Prisiau rhesymol

Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

**JOHN ROBERTS****Paentiwr****Papurwr****Teilsiw'r****Symudol: 07747 628650****Ffôn: 01248 600995****C.L. JONES****Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu**

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni


Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen



Côr Blwyddyn 6 ac Iau,
Ysgol Llanllechid



Grŵp Offerynnol - Triawd Bodfeurig



Llefaru Blwyddyn Un



Llefaru Blwyddyn 2



Llefaru Blwyddyn 5 a 6



Unawd Derbyn



Parti Cerdd Dant
Ysgol Llanllechid



Parti Llefaru Cynradd -
Ysgol Pen-y-bryn



Llefaru Blwyddyn 2



Unawd Blwyddyn 5 a 6



Unawd Meithrin



Unawd offerynnol Blwyddyn 6 ac iau



Unawd Blwyddyn 2



Llefaru Blwyddyn 2



Unawd Blwyddyn 3 a 4

Canlyniadau'r Eisteddfod

Cyfarfod yr Hwyr – Nos Wener Tachwedd 16eg, 2012

Unawd Lleisiol:

1af – Glyn Morris - Manceinion
2il – Heulen Cynfal - Parc, Y Bala
3ydd – Gerallt Rhys Jones -
Machynlleth

Unawd Offerynnol (yn cynnwys piano):

1af – Gwenno Morgan - Bangor
2il – Mabon Jones - Bethesda Bach
3ydd – Gwenno Brown - Bontnewydd

Côr Cymysg/Meibion/Merched:

1af – Côr y Penrhyn
2il – Côr Dros y Bont
3ydd – Côr Dre

Llefaru Unigol

2il - Heulen Cynfal - Parc, Y Bala

Rhaglen o Adloniant i Ysgolion

Uwchradd

1af – Pedwarawd William Mathias
2il – Côr Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd – Ensemble Ysgol Dyffryn Ogwen

Canlyniadau Adran Llenyddol

Enillydd y Gadair:

Mr Gareth Rowlands, Machynlleth

Enillydd y Fedal Ryddiaith:

Mrs Siân Esmor, Rachub

Enillydd Medal yr Ifanc:

1af - Sian Mererid Jones, Ysgol Dyffryn
Ogwen
2il - Emily Roberts - Ysgol Dyffryn
Ogwen

Llên yr Ifanc

Blynyddoedd 7-9:

1af – Rhiannon Llwyd, Bl.9 ac Elen
Wyn Bl.8 - Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Manon Hughes Bl.9 – Ysgol
Dyffryn Ogwen
3ydd – Gwenllian Owen Bl.8 – Ysgol
Dyffryn Ogwen

Blynyddoedd 10-11:

1af – Elin Cain Roberts Bl.10 – Ysgol
Dyffryn Ogwen
2il – Alys Haf Bl.10 – Ysgol Dyffryn
Ogwen
Cydradd 3ydd – Sioned Carran Bl.10 a
Annest Rowlinson Bl.11 – Ysgol
Dyffryn Ogwen

Canlyniadau Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2012

Llefaru Meithrin.

1af – Mali Fflur - Ysgol Llanllechid
2il - Seren Mai - Ysgol Llanllechid
3ydd – Cari Davies – Ysgol Abercaseg

Unawd Meithrin.

1af – Mali Fflur – Ysgol Llanllechid
2il – Esther Parry – Ysgol Tregarth
Cydradd 3ydd – Cari Davies – Ysgol
Abercaseg ac Erin Lois Carsen - Ysgol
Llanllechid

Llefaru Derby.

1af – Osian Rhys - Ysgol Abercaseg
2il – Mia Williams - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Ffion Haf Tipton - Ysgol
Llanllechid a Iago Jones - Ysgol Abercaseg

Unawd Derby.

1af – Mia Williams - Ysgol Llanllechid
Cydradd 2il – Mari Watcyn Roberts - Ysgol
Llanllechid a Shannon O'Mali - Ysgol
Tregarth
Cydradd 3ydd – Osian Rhys - Ysgol
Abercaseg a Sion Osian Hughes - Ysgol
Abercaseg

Llefaru Blwyddyn 1.

1af – Rhiannon Elfyn - Ysgol Abercaseg
2il – Llinos Roberts - Ysgol Abercaseg
Cydradd 3ydd – Aisha Roberts -Ysgol
Llanllechid a Madeline -Ysgol Llanllechid

Unawd Blwyddyn 1.

1af – Cian Rhys - Ysgol Abercaseg
2il – Doris Roberts - Ysgol Bodefeurig
3ydd – Elin Mair Owen Ysgol Abercaseg a
Rhiannon Elfyn - Ysgol Abercaseg

Llefaru Blwyddyn 2.

1af - Martha Jones - Ysgol Abercaseg
2il – Adam Williams -Ysgol Llanllechid
3ydd – Niamh Atkinson ac Anest Bryn-Ysgol
Abercaseg

Unawd Blwyddyn 2.

1af – Gwawr Owen -Ysgol Rhiwlas
2il – William Arfon Roberts - Ysgol
Llanllechid
3ydd – Adam Williams - Ysgol Llanllechid

Llefaru Blynyddoedd 3 a 4.

1af – Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn (Cwpan
Goffa Grace Williams)
2il – Ela Lois - Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Elis Evans - Ysgol Llanllechid a Mari
Fflur Bullock - Ysgol Llanllechid

Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Dyddgu Glyn – Ysgol Pen y Bryn
2il – Gwydion Rhys – Ysgol Llanllechid
3ydd –

Unawd Blynyddoedd 3 a 4.

1af – Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn
2il – Lauren Williams - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Mari Bullock - Ysgol
Llanllechid ac Efa Lois Burgess - Ysgol
Llanllechid

Llefaru Blynyddoedd 5 a 6

1af – Beca Nia - Ysgol Llanllechid
2il – Gwydion Rhys - Ysgol Llanllechid
3ydd – Dafydd Glyn-Ysgol Penybryn

Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Aziliz Kervegant - Ysgol Llanllechid
2il – Mari Bullock - Ysgol Llanllechid
3ydd – Megan Rhys Williams - Ysgol Rhiwlas

Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Aziliz Kervegant - Ysgol Llanllechid
2il – Gwawr Owen - Ysgol Rhiwlas

Unawd Blynyddoedd 5 a 6.

1af – Aziliz Kervegant - Ysgol Llanllechid
2il – Dyddgu Glyn Jones - Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Gwydion Rhys - Ysgol Llanllechid a
Beca Nia - Ysgol Llanllechid

Parti Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau.

1af - Ysgol Llanllechid

Parti Llefaru Ysgol Gynradd.

1af – Ysgol Pen y Bryn
2il – Ysgol Llanllechid

Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Gwydion Rhys - Ysgol Llanllechid
2ail - Beca Nia - Ysgol Llanllechid
3ydd – Eban Hargreaves - Ysgol Tregarth a
Mia Richards - Ysgol Llanllechid

Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau

1af -Dyddgu Glyn Jones - Ysgol Pen y Bryn
2ail- Gwydion Rhys - Ysgol Llanllechid
3ydd -Awel Griffiths - Ysgol Pen y Bryn

Grŵp Offerynnol Blwyddyn

1af - Ysgol Bodfeurig
2il - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd - Triawd Ysgol Tregarth ac
Ysgol Pen y Bryn

Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Parti Efan (Pen y Bryn)
2il – Parti Llanllechid
3ydd – Parti Ela (Pen y Bryn)

Côr Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Ysgol Llanllechid
2il – Ysgol Pen y Bryn

Grŵp Dawnsio Gwerin Blwyddyn 6 ac iau

1af – Ysgol Tregarth

Grŵp Dawnsio Disgo Blwyddyn 6 ac iau

Cydradd 1af - Ysgol Llanllechid ac Ysgol
Tregarth

Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru

Beca Nia - Ysgol Llanllechid

Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol

Gwydion Rhys – Ysgol Llanllechid

Llenyddiaeth Ysgolion Cynradd y Dalgylch Stori

1af – Beca Nia, Bl.6 – Ysgol Llanllechid
Cydradd 2il – Thalia Lichtenstein, Bl.4 – Ysgol
Llanllechid ac Aziliz Kervegant Bl.6 Ysgol
Llanllechid
Cydradd 3ydd – Gwydion Rhys, Bl.5 Ysgol
Llanllechid, Maisy Lovatt, Bl.6 - Ysgol
Llanllechid ac Ella Baker, Bl.6 - Ysgol
Llanllechid

Barddoniaeth

Iaf – Gwydion Rhys, Bl.5 – Ysgol Llanllechid
 Cydradd 2il – Eiliw Mai, Bl.6 – Ysgol
 Llanllechid a Josh Price, Bl.6 – Ysgol
 Llanllechid
 Cydradd 3ydd – Lloyd Wilberforce, Bl.6 –
 Ysgol Llanllechid ac Ella Baker, Bl.6 – Ysgol
 Llanllechid.

100 o**Ganeuon Gwerin**

Yn dilyn llwyddiant ysgubol 100 o Ganeuon Pop, mae'r Lolfa ar fin rhyddhau ail gasgliad o ganeuon poblogaidd Cymru, sef 100 o Ganeuon Gwerin, wedi'i olygu gan Meinir Wyn Edwards.

Mae'r casgliad yn cynnwys clasuron fel Ar Lan y Môr, Bugeilio'r Gwenith Gwyn, Cysga Di Fy Mhlentyn Tlws, Dacw 'Nghariad, Hen Ferchetan, Hiraeth, Lisa Lân, Mil Harddach, Paid â Deud, Suo Gân, Tra Bo Dau, Twll Bach y Clo, Y Gwydr Glas, Ym Mhontypridd Mae 'Nghariad, Yr Eneth Ga'dd ei Gwrthod ac 85 o ganeuon bendigedig eraill.

Gallwch brynu'r llyfr am £14.95 yma neu mewn siopau llyfrau Cymraeg.

Dyma beth ddywedodd Siân James

"Does dim byd gwell gen i na phori'n hamddenol drwy'r llyfrau hyn yn trio darganfod rhyw gân fach 'newydd', fel petai, i ymaflyd â hi. Felly mae'n hyfryd iawn gen i weld llyfr fel hwn yn cael ei gyhoeddi, fel bod selogion fel finnau, yn ogystal â'r rhai sydd eisiau dysgu mwy am ein caneuon gwerin, yn medru cael mynediad rhwydd i fyd cyfoethog ein traddodiad. Yn sicr, mae llyfr fel hwn yn gaffaeliad mawr i unrhyw un sydd â diddordeb ym myd y gân werin Gymraeg."

www.ylolfa.com

**Y Lolfa Cyf., Talybont,
 Ceredigion, Cymru SY24 5HE
 ffôn 01970 831 902**

www.ylolfa.com

cyhoeddwy'r ac argraffwyr

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dw i'n ddiolchgar iawn i nifer o ddarlennwyr sy'n ymateb i'm hysgrifau yn Llais Ogwan ac yn ychwanegu atynt o bryd i'w gilydd.

Fis Tachwedd y llynedd, cyhoeddais ysgrif yn dwyn i gof rai o'r tanau a fu yn y dyffryn dros y blynyddoedd. Anghofiais sôn am y tân a ddinistriodd rannau sylweddol o'r Felin Fawr yng Nghoed y Parc ar Hydref 16, 1952, a chefais f'atgoffa gan Miss Alwen Eleri Hughes (Cilfodan) am dân arall na chofiais ei grybwyll. Mae Alwen yn cofio Siop Foster (sydd ychydig yn is i lawr yr allt na'i chartref) yn mynd ar dân fore Sul, Awst 31, 1952. Roedd y tân wedi'i achosi gan nam trydanol ac roedd pryder mawr ynghylch y cwt paraffin y tu ôl i'r siop. Agorodd Mrs Foster (mam Syr Idris Foster, wrth gwrs) siop dros dro yn yr adeilad bychan gyferbyn â gwaelod yr allt, lle bu siop chips ymhen rhai blynyddoedd wedyn, os cofiaf yn iawn. Cafodd y siop wreiddiol ei hatgyweirio a'i hailagor ar ôl y tân. Yn dilyn hynny, fe godwyd Cae'r Onnen, a fu'n gartref i Syr Idris tan ei farw yn ar Fehefin 18, 1984.

Cefais sawl ymateb i'r rhestrau o addoldai yn Nyffryn Ogwen ddoe a heddiw a thynnodd Mrs Beryl Orwig fy sylw at y ffaith fod Capel Salem, Rachub (yn groes i'r hyn a ysgrifennais i) wedi cau ers tro a bellach yn ddau breswylfod.

Derbynias lythyr diddorol iawn oddi wrth Mr John Huw Evans, Rhiwlas, a theimlaf fod ei gynnwys yn haeddu cael ei rannu â darlennwyr Llais Ogwan. Sonia am drefn y Wesleaid 'o glystyru capeli yn Gylchdeithiau' gan egluro mai'r rheswm y tu ôl i hynny oedd 'bod gweinidogion yn gallu cyrraedd y capeli o dan eu gofal o fewn taith gerdded resymol ei phellter ar y Sul'.

Un o'r Cylchdeithiau hynny oedd Cylchdaith Tregarth a chan fy mod yn mynychu Capel Pisgah, Rhiwlas, sydd yn gapel Wesla, cafodd hynny gryn effaith ar blant yr Ysgol Sul, a minnau yn eu plith. Perthynai saith capel i Gylchdaith Tregarth: Salem, Llanllechid; Siloam, Bethesda; Shiloh, Tregarth; Gorffwysfa, Sling; Peniel, Mynydd Llandygái; Pisgah, Rhiwlas; a'r Tabernacl yn Neiniolen. Yr oedd tri gweinidog yn bugeilio'r capeli hyn: un ym Methesda (a ofalai am Salem a Siloam; un yn Nhgareth (yn gofalu am Shiloh a Gorffwysfa) a'r trydydd yn Rhiwlas (gyda gofal am Bisgah, Peniel, a'r Tabernacl). Y pwysicaf ei statws oedd Shiloh ... Gweinidog Tregarth fyddai'n gyfrifol am weinyddu'r Gylchdaith a gofalu bod popeth yn rhedeg yn esmwyth. Shiloh oedd y 'gadeirlan' i bob pwrpas ac yno y byddai'r hoelion wyth yn cael eu lleoli ... Tecwyn Evans a Tegla Davies, er enghraifft. Gweinidog ieuanc yn syth o'r coleg a leolid yn Pisgah fel arfer ... Hyd oddeutu diwedd y 1930au, byddai pob gweinidog yn newid Cylchdaith bob tair blynedd (a hynny ar ddechrau mis Medi) ond newidiwyd hynny i bob pum mlynedd wedyn. Prin eu bod yn cael cyfle i ddod i adnabod yr ardal na'r aelodau! Byddai pob gweinidog yn pregethu yn y saith capel yn eu tro. Crybwyllais uchod bod hyn yn effeithio ar ieuencid y Gylchdaith. Rhoddai gyfle iddynt ddod i adnabod plant yr Ysgolion Sul eraill a hynny'n bennaf drwy Gymanfa'r Plant, a gynhelid yn Shiloh ar y Sadwrn cyntaf o Fai. Byddai bws yn cludo plant o Ddeiniolen ac yn galw yn Rhiwlas ar y ffordd, a bws arall yn dod o Fethesda a Llanllechid. Roedd Cymanfa'r Wesleaid yn fwy o eisteddfod nag o Gymanfa Ganu, gyda chystadlaethau adrodd, cydadrodd a chanu. A digwyddiad pwysicaf y dydd fyddai'r te yn Hen Neuadd Tregarth rhwng y ddau gyfarfod.

Diolch i John Huw am ddweud hanes mor ddifyr.

Croesair Rhagfyr 2012

AR DRAWS

1. Teisen fach dymhorol, mins ---. (3)
3. Un o ddeg yn hanes y wlad y ffodd Joseff a Mair iddi. (3)
5. "Dan ---- y seren daeth doethion dri." (4)
8. "Mae weiran bigog gylch - ----, A chraith lle bu Creawdwr byd." ('Haleliwia' - Brigyn) (1,4)
9. Bydd ----- siriol yn disgleirio pan wél y plant eu hannhegion. (7)
10. "A gweled yno yn ei grud ----- arglwyddi yr holl fyd." (I. D. Hooson) (7)
12. Ffodd Joseff efo'i ---- a'r baban o Fethlehem. (5)
13. Yn ôl yn y man mae rhywbeth o'i le. (3)
15. Un o siopwyr prysuraf yr Wyl. (5)
17. "--- yn yr awyr fel disglair em, Gwenai y seren ar Fethlehem." (T. Llew Jones) (3)
19. ----- coch, planhigyn pigog yr Wyl! (5)
20. Y tri o'r dwyrain. (7)
23. Ganwyd Gwarddwr y Byd yn llety'r -----, (7)
24. Faint o lu nefol oedd gyda'r angel yn molianu Duw? (Luc 2) (5)
25. Aeth y teulu o Nasareth i Fethlehem i dalu ----. (4)
26. Tanwydd i gael tanllwyth. (3)
27. Mae niwl trwchus yn gwneud hyn. (3)

I LAWR

1. Gwasanaeth Nadolig a math o ganu carolau traddodiadol Gymreig. (7)
2. Efo 19 Ar Draws, planhigyn traddodiadol yr Wyl. (5)
3. Carchar Joseff (nid gŵr Mair!) gan ei frodyr. (5)
4. "A hyn fydd ---- i chi; Chwi a gewch y dyn bach wedi ei rwymo

- mewn cadachau..." (Luc 2) (5)
5. "Nid yw'r neges yn heneiddio, Daw -' - ---- i'n cysuro." (1'1,5)
 6. Ymgais i brofi rhywbeth newydd. (7)
 7. Un o ddwy ddeddfryd yn Llys y Goron. (4)
 11. Edrych yma! (3)
 14. Un o'r 20 Ar Draws. (7)
 15. Sawl tro y dehlir y Nadolig mewn canrif? (7)
 16. Yn y fan honno. (3)
 18. Dod yn agosach, fel y tri yn dilyn y seren at y preseb. (7)
 19. Ffirwythau traddodiadol yr Wyl; rhai almon, cyll, Brasil neu Ffrengig. (4)
 20. Yr Wyl ar lafar gwlad. (5)
 21. Torri'r farf o'i lle i gael yr wyneb yn lân a llyfn. (5)
 22. Yn ei blentynod. (5)


ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2012

AR DRAWS 1. Pabi; 3. Siswrm; 8. Sebonwr; 9. Losin; 10. Awchus; 11. Indiaid; 12. Tafarn; 14. Cardod; 18. Cacyren; 20. Enfys; 22. Dirym; 23. Anifail; 24. Cynnen; 25. Cnau.

I LAWR 2. Bwbach; 3. Streic; 4. Salad; 5. Rwsiaid; 6. Ynyswr; 7. Ynyd; 13. Ficerdy; 15. Addewid; 16. Dysglau; 17. Unfam; 18. Cadw; 19. Namyn; 21. Flaen.

Yn anffodus, mi ddaru cliw 2 I Lawr faglu rhai ohonoch y tro hwn. Yr ateb cywir gan y rhan fwyaf oedd 'bwbach', ond cafwyd 'babwn' a 'brain' yn gynnigion anghywir.

Aiff y wobwr y tro hwn i Gareth W. Jones, Hafle, Penrhwi, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion.



Da iawn chi. Llongyfarchiadau mawr hefyd i'r canlynol am atebion hollol gywir: Karen Williams, Elfed Evans,

Llanllechid; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; Rita Bullock, Bethesda;

John a Meirwen Hughes, Abergele; Jean Vaughan Jones, Heulwen Evans, Dilys Parry, Rhiwlas;

Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth.

Wrth gyflwyno croesair Rhagfyr i chi dymunaf Nadolig Llawn iawn i bob un ohonoch

a diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Gwelwn chi eto gobeithio ym mis Ionawr.

Atebion erbyn dydd Mercher 2 Ionawr i 'Croesair Rhagfyr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

Nyth y Gân

Cyfarfod ar ôl Blynnyddoedd

Cannoedd o'u dyddiau cynnar a rannai Gwŷr yno'n hiraethgar; Hudo gem wnaeth dau gymar I gwrs eu sgwrs ar y sgwâr.

Gwlith

Mor ddirgel y taenwyd y perlau Yn garped cyn toriad y wawr A phob un cyn hardded â'i gilydd Yn gloywi hyd wyneb y llawr.

Ni lwyddodd neb yno i'w casglu A'u gwisgo yn gadwyn erioed Oherwydd eu bod nhw mor fregus Yn chwalo yn deilchion dan droed.

Ond llwyddo wnaeth rhai â'u dychymyg I gasglu trysorau fel rhain A'u rhanu i ninnau gael trafod Y perlau niferus a chain.

Awdur

Ein harwain wna rhwng cloriau o'n cadair I'n cadw am oriau Â'i ddawn a gawn wedi'i gwau Yn gywrair yn y geiriau.

Dail yr Hydref

Newid yn ddyddiol mae'r darlun o'm drws, A'r coed yn eu gwisgoedd yn hynod o dlws; Rhyw hiraeth ddaw tros of wrth wylio eu plant, A'r rheini'n ffarwelio yn nŵr oer y nant.

Mor fywiog yr oeddynt wythnosau yn ôl Yn gwahodd yr awel i chwarae'n eu côl A gwobr roddasant i adar y nen Trwy gynnig sawl noddfa a tho uwch eu pen.

Fe gafodd arlunwyr eu denu sawl tro A'u temtio i roddi'r olygfâ dan glo, A sylw arbennig mewn coedwig a pherth A gawsant gan rheini a wyddai eu gwerth.

Mae'r harddwch a'r bwrllwm hyd wyneb y tir Yn gallu'n camarwain trwy gelu y gwir; Mor dawel, o'r golwg, mor bwysig eu nod Yw'r gwreiddiau fel angor sy'n haeddu'r un clod.

Dafydd Morris

Dylid gofalu bod cynnyrch y rhifyn nesaf yn cyrraedd Golygydd y mis erbyn dydd Mercher 2 Ionawr.

Golygydd mis Ionawr fydd Neville Hughes, Bryn Ffrydias, 14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA. (01248 600853.) nev_hughes@btinternet.com

Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Noson Dwynwen



yng Nghlwb Rygbi Bethesda

7.30 Nos Wener
25^{ain} Ionawr 2012

Cerddoriaeth gan
Gwenno Roberts,
Stephen Rees a Paul Airey

Tocynnau: £5 (yn cynnwys cawl)
gan Neville 600853, Mary 600274 a Linda 601526

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
Nos Lun 14 Ionawr 2013
 am 7.00 pm
YN FESTRI CAPEL JERUSALEM, BETHESDA

Dr Dafydd Roberts
Y Coedwigwyr ar Lethrau Moelyci

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

Cynhelir
GWASANAETH NADOLIG CYMUNEDOL
YNG NGHAPEL JERUSALEM, BETHESDA
NOS SUL, 23 RHAGFYR, 2012

am 7 o'r gloch
 * * * * *

Dewch i ddathlu Gŵyl y Geni

Cofiwch Brynu
Calendr Llais Ogwan
£4.00 yn y siopau lleol

Canolfan Cefnfaes BETHESDA

GYRFA CHWIST

10 Ionawr 8, 22 a 29
 Chwefror 12 a 26

am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

NEUADD OGWEN, BETHESDA

BOREAU COFFI



22 Rhag: Cŵn Tywys i'r Deillion
 05 Ionawr: Apêl Eleanor i Ward Alaw
 12 Ionawr: Apêl Leon Williams
 19 Ionawr: Mini Rygbi, Bethesda
 26 Ionawr: Cyfeillion Ysgol Abercaseg

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

Côr Meibion Dinas Bangor

Bore Llun, Tachwedd y 26ain am ddeg o'r gloch y bore, gyda thywydd nad oedd ar unrhyw gyfrif yn groesawgar i gwsmeriaid cyntaf siop newydd ASDA ym Mangor, 'roedd Côr Meibion Dinas Bangor yno ym mynedfa'r archfarchnad yn llawn hwyliau ar gyfer yr achlysur. Rhyw chwarter awr cyn yr agoriad swyddogol, a'r siopwyr yn rhes hir y tu allan gyda'u troliau, perfformiodd y Côr ddau ddatganiad bywiog i gymeradwyaeth frwdfrydig.

Yn dilyn agor y drwsau, symudodd y Côr i'r cyntedd mewnol gan barhau i ddi-ddanu'r siopwyr ar eu ffordd i mewn.

Roedd eu mwynhad yn amlwg a'r cymeradwyo wrth fynd heibio yn parhau a phawb wedi eu rhoi mewn hwyliau i wario eu harian, mi obeithiwn.

Roedd cynrychiolaeth gref o'r Côr yn bresennol a chafwyd gwerthfawrogiad arbennig o berfformiad y cantorion, cyfraniad yr arweinydd Gwilym Lewis a'r gyfeilyddes Lowri Roberts Williams. Bu'n achlysur pleserus i'r Côr a diolchwn yn fawr i Fwrdd Rheoli Asda am y gwahoddiad i berfformio ar yr achlysur arbennig hwn.

Rhwng Cyfnos a Gwawr gan Emlyn Evans

Newydd ddod allan o'r wasg mae cyfrol ddiweddaraf yr awdur lleol, Emlyn Evans, un o gymwynaswyr mawr ein llenyddiaeth yn yr hanner canrif ddiwethaf. Dyma ŵr sydd wedi treulio rhan helaeth o'i fywyd yn hyrwyddo llenyddiaeth Gymraeg, a hynny trwy fod yn Rheolwr ar ddwy wasg Gymraeg ddylanwadol iawn, sef Llyfrau'r Dryw, a Gwasg Gee. Ef, hefyd, oedd yn uniongyrchol gyfrifol am lansio'r cylchgrawn Cymraeg 'Barn', sydd yn dathlu ei benblwydd yn hanner cant oed eleni, cylchgrawn sydd wedi arwain, a llywio, sawl agwedd ar fywyd ein cenedl yn ystod yr hanner canrif ers ei eni. Yn 1991 cyhoeddwyd cyfrol hunangofiannol (ynghyd ag agweddau eraill) y gŵr o Ros Nant, 'O'r Niwl a'r Anialwch'. a chafodd honno groeso brwd, ac adolygiadau canmoliaethus.

Mae'r gyfrol ddiweddaraf hon o waith Emlyn Evans yn gasgliad o nifer o ysgrifau amrywiol, ac ambell gerdd, a gyfansoddwyd dros y blynyddoedd. Maent yn hynod o amrywiol eu testun, sy'n llwyr nodweddu'r awdur, o safbwynt ei ddiddordebau eang a'i wybodaeth helaeth. Gellwch ddarllen am Ewrop yng nghanol y ddeunawfed ganrif, neu am fywyd y dramodydd Henrik Ibsen. Neu Pam astudio Economeg? Islwyn Ffowc Elis a Dafydd Orwig? Neu beth am gerdd, megis Molawd i Ddewi Sant? Neu lawer mwy. Mae'r arlwy a'r fwydlen a gaiff ei gosod o'n blaenau yn helaeth ac amrywiol, y cynhwysion yn gyfoethog a diddorol, ac mae'r ysgrifennu, sef hanfod y coginio, yn gyhyrog a chadarn, a byth yn syrthio'n brin. Gwledd o gyfrol i'w chroesawu i'n byrddau.

Cyhoeddir 'Rhwng Cyfnos a Gwawr' gan Wasg Gee, ac mae ar werth am £9.95. Anrheg o werth a sylwedd, ac o ddiddordeb, i'r hosan Dolig.

Dafydd Fôn Williams

Côr Meibion y Penrhyn

Profiadau amrywiol

Un o brofiadau pleserus bod yn aelod o gôr yw'r galwadau ar ein gwasanaeth mewn nifer o wahanol sefyllfaoedd a gallwn gyfrif ein hunain yn ffodus yng Nghôr y Penrhyn ein bod yn cael gwahoddiadau i ganu mewn cyngherddau ffurfiol, mewn gwasanaethau eglwysig, gwyliau cerdd, penwythnosau canu ysgafn megis Pesda Roc a hefyd yn cael cystadlu mewn eisteddfodau lleol, sirol a chenedlaethol. Daeth nifer o'r rhain i ran y côr yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf wedi i ni ganu yn yr Ŵyl Gopr ym Mhorth Amlwch, yn Pesda Roc yn Neuadd Ogwen, yn Eglwys St John Llandudno gyda chôr o Corby, ac yn Maes Awyr Caernarfon pan gafodd y côr y fraint o ganu i groesawu Rhys Meirion a'i gyfeillion ar ôl eu marathôn o daith gerdded i godi arian i Ambiwllans Awyr Cymru.

Cadeirlan Bangor

Yn ddiweddar bu'r côr yn cymryd rhan mewn cyngerdd i godi arian ar yr elusen ymchwil i gancr pan fuom yn rhannu llwyfan â Band Arian Porthaethwy. Digwyddodd y dyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant ym Mangor ac wrth gwrs nid yw'r côr yn codi ffi am gymryd rhan mewn cyngerdd o'r fath. Mae'n braf gallu dweud bod ymateb y gynulleidfa unwaith eto yn destun balchder i'r côr a phawb a fu'n gwrandao yn canmol i'r entyrchion gyfraniad neilltuol y bechgyn i lwyddiant y noson.

Priodas

Digwyddiad arall sy'n dangos ehangder ac apêl canu corawl i gynulleidfa amrywiol yw'r ffaith bod y côr wedi derbyn gwahoddiad i ganu ym mhriodas Mr Dafydd Hardy a'i gyymar Claire ym Mhlas Rhianfa, ar lan y Fenai ym Môn ar y dydd Sadwrn cyntaf o'r mis hwn. Unwaith eto aeth "Anfonaf Angel" (Robot Anwyn) a chaneuon fel "Tshotolozza" a "Benedictus" i lawr yn wych gan dderbyn cymeradwyaeth wresog gan bawb o'r gwahoddedigion.

Pias Ffrancon

Yn syth wedi cymryd rhan yn y gwasanaeth priodasol rhuthrodd aelodau'r côr yn eu holau i gymryd rhan yn yr Ŵyl a drefnwyd gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd ym Mhlas Ffrancon, Bethesda. Roedd hwn yn achlysur cymdeithadol pwysig yn y fro gyda stundinau yn gwerthu cynnyrch cartref a nyddau eraill er budd gwahanol fudiadau a chymdeithasau lleol. Dyma hefyd yr achlysur lle bu'r côr yn ddigon ffodus i dderbyn yn ffurfiol siec cymorthdal sylweddol gan Gronfa Cymdeithasol Cartrefi Cymunedol Gwynedd i brynu offer a fydd ar gael i unrhyw gymdeithas arall yn y fro i'w ddefnyddio pan fydd angen piano neu offer sain arnynt. Gwelir felly bod Côr y Penrhyn yn gweithredu er lles diwylliannol a chymdeithasol holl ardal Dyffryn Ogwen a gobeithio y bydd cymdeithasau'r fro yn manteisio ar yr offer rhagorol a brynwyd gyda'r cymorthdal.

Cyfnod o brysurdeb

Gyda dyfodiad y Nadolig bydd aelodau'r côr yn brysur unwaith eto'n canu carolau o gympas Bethesda a Bangor gan godi arian i nifer o achosion da,

CAD COMPUTERS

Cyfeillgar, Fforddiadwy, Lleol, Trwsio iPhone, iPod, iPad Dileu Feirws, Gwasanaeth, Cyngor Gliniadauron (Laptops) a P.Cs ar werth

BETHESDA 01248 601285
BENLLECH 01248 852578

MODURON PANDY Cyf.

Tregarth
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

BYSUS D. J. OWEN'S RHWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÌ.

Bysus Gwyrdd Rhwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Ymgwymerwr adeiladu a gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub*

Ffôn: 01286 870605



Posh Paws Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
E-bost: juliaposhpaws@btinternet.com

Meithrin menter gymdeithasol lleol

Am gymorth:
i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â
Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Ffôn Cofrestrddig 1168861 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfngedig ar Warrant 54/02/11



Gallai eich hysbyseb

Chi

fod yma

Cysylltwch â
Neville Hughes 600853

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwllans Gogledd Cymru

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Elwyn Jones & Co

Hefyd yn masnachu tel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd



-Cyfreithwyr-

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224



*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol.
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar.*

Lexcel

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Ambwch Benllech
01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01286) 673616 (01758) 703000

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau mawr i Sian Mererid (B113) ar ennil tws Medal yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2012. Testun ei stori fer oedd "Terfysg" ac yn ei beirniadaeth dywedodd Elina Owen: "Cawn ddisgrifiad o'r terfysg mewnol mewn merch ifanc wrth iddi gael ei pharatoi i'w chyflwyno'n aberth i'r duwiau i geisio eu plesio a dod â'r sychdwr a'r newyn i ben. Mae ganddi ddisgrifiadau hyfryd a cheir cymhariaeth effeithiol iawn rhwng merch yn cael ei pharatoi ar gyfer priodas a'r paratoi ar gyfer aberth i'r duwiau . . . mae adeiladwaith y diweddglô yn taro deddeg, gyda'r gair olaf "Düwch" "– mynnwn ein copi ohoni!



Buddugwyr y Prif gystadlaethau llên gyda Sian Mererid ar y chwith

Llongyfarchiadau i gôr iau yr ysgol a'r grŵp siambr offerynnol ar eu perfformiadau safonol yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar nos Wener, Tachwedd 16. Dechreuwyd y noson gan y côr gyda'u rhaglen 'Teithio'r Byd', a oedd yn cynnwys 'Canwn yn Gllir' fel y gân agoriadol – can a oedd yn defnyddio geiriau'r anthem genedlaethol. Symudasant i ochr arall y byd gyda'u datganiad nesaf, sef cân draddodiadol o Jamaica: 'Marchnad Llanfair', ac yn olaf daethant â'r byd at ei gilydd gyda threfniant Hywel Parry o gyfansoddiad Holst: 'Byd yn Un' ('World in Union') i gyfeiliant bywiog piano, bâs a drymiau. Llongyfarchiadau i chi ar berfformiad gwefreiddiol a disgybledig a gipiodd yr ail wobr.

Fe aeth y drydedd wobwr i'r grŵp siambr gyda Sian Mererid (ffliwt), Rhiannon Llwyd (obo), Lois Jones (clarinét) a Martha Evans (cello) yn cyflwyno tri darn - trefniant o 'Frere Jaques' yn gyntaf, alaw Wyddelig draddodiadol o'r enw 'T' is the Last Rose of Summer' gyda Sian yn chwarae'r unawd yn ai, ac yna gorffen gyda threfniant jazz o 'Three Blind Mice'. Da iawn chi!

OPERATION CHRISTMAS CHILD'

Unwaith eto eleni paratodd disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen lu o focsys i'w hanfod at 'Operation Christmas Child'. Diolch yn arbennig i ddsosbarth 12 Glyder am drefnu'r casglu fel rhan o'u gwaith gwirfoddoli ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.



Ioan Roberts a Jago Lyne gyda'r bocsys.

Ysgol Tregarth

Ffarwelio

Mae'r ysgol yn drist o weld Miss Ffion Thomas yn ymadael ar ôl deng mlynedd o wasanaeth diflino fel cymhorthydd Anghenion Dysgu Ychwanegol. Pob lwc iddi yn ei gyrfa newydd yn

Tesco.

Pob lwc hefyd i Elan Malin, sy'n trosglwyddo'n llawn amser i Ysgol Pendalar.

Croeso

Croeso cynnes i Leah Roberts, sy'n ymuno â thim yr ysgol fel glanhawraig newydd. Mae eisioes yn brysur iawn yn cyflawni ei dyletswyddau

Trip i Gaerdydd



Yn blygeiniol ar fore Mercher, ynghanol mis Hydref, cychwynodd 36 o blant Ysgol Tregarth ac Ysgol Bodfeurig am Gaerdydd. Cafwyd profiadau bythgofiadwy wrth ymweld â'r 'Big Pit', Yr Amgueddfa Genedlaethol, Amgueddfa Sain Ffagan, Y Senedd, Techniquest a Stadiwm Y Mileniwm. Cawsom aros yng Nghanolfan yr Urdd, a diolch i Llinos am edrych ar ein holau a chaniatau'r Parti Pyjamas! Gyda'r nos cawsom ymweld â'r Ganolfan Bowlio Deg, lle 'roedd yn amlwg fod gan y plant fwy o ddawn na'r athrawon!

Yn ystod yr ymweliad a'r Senedd, cafodd y plant brofiad o gymryd rhan mewn trafodaeth a mynegi barn ar bynciau cyfoes.

Ymweliad â'r Stadiwm oedd yr un mwyaf poblogaidd, gydag ambell un yn dyheu am gael rhedeg allan ar y cae efo pêl rygbi dan ei fraich! Diolch i'r staff am roi eu hamser i oruchwylio'r plant.

Taith Gerdded Noddedig

Ar un o'r nosweithiau braf prin ar ddechrau'r mis, daeth criw mawr o blant a chefnogwyr, yn rieni ac yn neiniau a theidiau ynghyd i gerdded o amgylch y pentref.

Roedd y gogyddes, Laura Jones, Fiona a Glynys yn brysur iawn yn bwydo pawb efo cŵn poeth a sgolodion. Ymddiheuriadau i'r rhai a gyrhaeddodd olaf pan oedd y cŵn poeth wedi gorffen!

Casglwyd dros £500. Diolch i bawb am gefnogi'r daith ac am gasglu cymaint o arian.

Trip i Gaernarfon

Fel rhan o'r gwaith daearyddiaeth y tymor hwn 'roedd dosbarth Tryfan a Ffrydylas yn ffodus iawn i gael y cyfle i fynd ar drip i Gaernarfon. Cawsom fynd i'r castell yn gyntaf ac yna aethom ar daith o amgylch y dref yng nghwmni Emrys Jones. 'Roedd ganddo straeon difyr iawn am hanes y lle. Er ei bod hi wedi tywallt y glaw drwy'r rhan fwyaf i'r dydd, 'roedd y plant wedi mwynhau, a chawsom hyd yn oed gyfle i fynd i'r parc cyn mynd adref!

Ymweliad John Dilwyn Williams

Eto fel rhan o'n gwaith ar Gaernarfon, cawsom ymweliad gan Mr Williams o'r Archifdy yng Nghaernarfon. Difyr iawn i'r plant oedd gallu cymharu, drwy astudio lluniau a mapiau, Caernarfon ddoe a heddiw. Roedd gwybodaeth eang gan Mr Williams a rhannodd hyn â'r plant mewn ffordd ddifyr a bywiog. 'Roeddem ni'n ddiolchgar iawn iddo am drefnu'r ymweliad.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Dathlwyd y Diolchgarwch yng Nghapel Shiloh eleni oherwydd toriad yn y cyflenwad trydan yn Eglwys y Gelli. Thema ein gwasanaeth oedd DIOLCH gyda phob dosbarth yn ei dro yn cyflwyno eitem. Cafwyd gwledd o ganu. Diolch i'r holl blant ac athrawon am eu gwaith. Diolch hefyd i swyddogion y capel am adael i ni ddefnyddio'r capel ar rybudd mor fyr. Diolch i'r holl gynulleidfa am eu cefnogaeth parod. Casglwyd £180 tuag at Gronfa April Jones.

Dyddiadau Ffair Nadolig - Rhagfyr 6ed - Cyngerdd Nadolig - 13 Rhagfyr

Ysgol Llangygái

GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Bu disgyblion yr ysgol yn dathlu a diolch yn Eglwys Tegai yng nghwmni Y Parchedig John Mathews. Cafwyd cyflwyniad gan y Babanod yn son am gath fach o'r enw Pwllyn. Cath garedig yn helpu amrywiol bobl yn yr Eglwys cyn y Gwasanaeth Diolchgarwch. Yna cafwyd eitem gan bob dosbarth yn yr Adran Iau-pob un yn cyd blethu ac yn son am yr Elusen Seeds for Africa a'u gwaith clodwiv. I gloi y gwasanaeth canodd y plant y gan boblogaidd Cae o Yd.Casglwyd arian tuag at yr elusen Seeds for Africa a diolch i'r rhieni am gefnogi y plant.

TRIPIAU DI RI

Bu Dosbarth Traed Bach ac Enfys yng Nghoedwig Penrhyn yn gwerthfawrogi tymor yr Hydref. Yn ystod yr ymweliad cawsant greu coronmau yr Hydref allan o ddail amryliw ac adeiladu cartrefi i'r saith cysgadur dros y Gaef oer. Diolch i staff Castell Penrhyn am fore symbylus a gwerthfawr.

Bu Dosbarth Awel yn yr archfarchnad fawr Tesco yn ddiweddar yn edrych ar yr Adran Ffrwythau a Llysiau. Pwrpas yr ymweliad oedd edrych ar yr amrywiol fathau o ffrwythau ac olrhain eu taith yn ôl i'r wlad lle cawsant eu plannu. Roedd y plant wedi mwynhau ac wedi dysgu llawer.

Bu Dosbarth Hedd yn dditectifs hanesyddol ym mynwent Eglwys y pentref - yn chwilio am fedd Walter Speed sef pengarddwr Teulu Pennant -hyn fel rhan o waith a thema y dosbarth. Y cam nesaf fydd ymweliad a'r Castell ac yna astudio llyfrau log y cyfnod. Rydym yn hynod o lwcus fod cymaint o dystiolaeth ar y stepen drws yma yn Llandygai.

Aeth llond bws o blant cynhyrfus dosbarth Tirion am Lyn Tryweryn a Chwm Celyn yn ddiweddar. Maent wedi bod yn astudio y nofel Ta Ta Tryweryn yn ystod y tymor a chawsant wrando ar y bennod olaf ar lan y llyn, yn ogystal bu'r disgyblion yn tynnu llun y llyn. Er i'r tywydd fod yn wlyb roeddent wedi cael trip ardderchog.

COFIO T LLEW JONES

Bu'r ysgol gyfan yn cofio am yr awdur Tllew Jones yn ddiweddar. Daeth pawb i'r ysgol, yn gwisgo lliwiau Cymru a daeth Mr Richard Llwyd Jones atom i ddarlennu ambell stori gan yr awdur i ddisgyblion yr Adran Iau. Diolch yn fawr Richard am fod mor barod eich cymwynas bob amser.

DATHLU DIWRNOD Y CENHEDLOEDD UNEDIG

Dathlwyd y diwrnod arbennig yma yn nosbarth Enfys a Traed Bach. Daeth llawer o'r plant i'r ysgol yn gwisgo dillad traddodiadol gwahanol wledydd ac aeth pawb adref yn chwilio baneri rhai o wledydd y Cenhedloedd Unedig. Pwysleiswyd yr elfen o heddwch a chyd weithio rhwng y gwledydd drwy i'r disgyblion afael dwylo a sefyll mewn cylch o amgylch y byd.

DATHLU DIWRNOD SBAEN

Bu Dosbarth Gwawr ac Heulwen yn dathlu y diwrnod yma drwy wisgo gwisg draddodiadol Sbaen, gwrandao ar gerddoriaeth a blasu bwyd Sbaenaidd. Roedd y plant wrth eu boddau yn rhannu gwybodaeth am y wlad i weddill y plant ar y buarth.

NOSON FFILM

Diolch i'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am drefnu noson o adloniant i'r plant. Cawsant wyllo ffilm a bwyta ffrwythau a chymdeithasu ar yr un pryd. Bydd y Ffair Nadolig Nos Wener Tachwedd 30. Dewch i gefnogi.

BEDYDD YN YR EGLWYS

Bu Dosbarth Heulwen a Gwawr mewn Gwasanaeth Bedydd yn Eglwys Llandygai o dan ofal Y Parch. John Mathews yn ddiweddar. Cawsant flas ar gynnwys seremoni o'r fath a chafodd rhai disgyblion chwarae rol aelodau teulu y babi bach (sef doli y dosbarth). Diolch i Mr Mathews am ei amser prin.

FFAIR NADOLIG

Daeth nifer fawr o blant, rhieni a ffrindiau i wario ac i weld Sion Corn yn y Ffair Nadolig. Roedd hi'n braf gweld cyn ddisgyblion yn cefnogi yr ysgol a diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu gwaith caled a di-fflino unwaith eto.

SIOEAU NADOLIG

Mae'r plant wrthi yn brysur yn ymarfer at y sioeau Nadolig. Bydd plant Adran y Babanod yn dathlu'r Nadolig yng Ngwlad y Rwla ac bydd yr Adran Iau yn dathlu yng nghwmni Dyn Y Lleuad.

Ysgol Rhiwlas

Bardd yn yr ysgol

Braf oedd cael cwmni'r bardd Twm Morys yn yr ysgol a chael ysgrifennu darn o farddoniaeth o dan ei arweiniad. Bu'r adran Iau yn trafod ein hardal leol cyn mynd ati i gyfansoddi'r canlynol:

Daew Rhiwlas ar y mynydd
Daew'r caeau, daew'r coedydd
Daew bentref bychan cynnes
Daew fro yn llawn o hanes.

Lle mae ogof Arthur Gawr
A bwrdd o aur a choron amro
A thrysorau yn disgleirio.

Afon cegin yn y brwyn,
Tyddyn Badin a Thy'n Llwyn
Tros y Waen, Cefn Coch, Cae Llel
A sawl hen dyddyn digon del

Y camp, lle bu swm saethu gynt
A heddiw dim ond swm y gwynt
A pharc y plant, lle nad oes peryg
Fel ers talwm ar y cerrig.

Mae hen ffynnon gerllaw i ni
A rhyw saim yn nofio arni
Saim sy'n dod wrth rostio carw
Yng Nghegin Arthur ydi hwnnw.
Heb fod yn bell, mae Marchlyn Mawr

Llogsfynyddoedd

Bu plant yr adran Iau yn dysgu am wahanol greigiau. Cawsant gymysgu gwahanol sylweddau cyffredin er mwyn greu llogsfynydd eu hunain yn y dosbarth.

Pêl rwyd

Aeth y tim Pêl Rwyd i Faes Glas ym Mangor â chystadlu mewn trnament Pêl Rwyd yn erbyn nifer o ysgolion eraill. Yn anffodus, colli fu eu hanes ond roedd y plant wrth eu bodd yn cael y cyfle i gystadlu a phawb wedi gwneud eu gorau glas. Da iawn chi, blant!

Amgueddfa Lechi

Yn dilyn ymweliad â Chastell Penrhyn cyn hanner tymor, aeth adran y Babanod i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis er mwyn cael cymharu bwthyn chwarelwr gyda chartref yr Arglwydd Penrhyn. Braf oedd cael y cyfle i deithio' ôl mewn amser a gwerthfawrogi hanes ein cyd-dadau. Diolch i bawb yn yr Amgueddfa am y croeso cynnes.

Llyfrgell Deiniolen

Bu plant yr adran Babanod yn pori drwy lyfrau adran plant llyfrgell Deiniolen yng nghwmni Anti Carys ac yn mwynhau'r cyfle i rannu straeon efo'u ffrindiau. Dyna lwcus!

Disgo gwisg ffansi

Cafwyd disgo gwisg ffansi yn yr ysgol un gyda'r nos. Roedd y golau'n llachar a'r gerddoriaeth yn fywiog a phawb wedi mwynhau'r dawnsio ac wedi ymdrechu efo'r gwisgoedd. Difyr oedd gweld pa rieni oedd yn dda am ddawnsio hefyd!

Gwasanaeth diolchgarwch

Diolch i gapel Peniel am gael cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch yno. Ar ôl i'r plant orffen, daeth Andrew Sedatree atom i roi pregeth ddi-ddorol a chafodd nifer o'r plant eu dewis i'w gynorthwyo i rannu negeseuon pwysig iawn.

Clwb yr Urdd

Mae plant Clwb yr Urdd wedi bod yn brysur! Sesiwn y goedwig, noson adeiladu, cystadleuaeth lliwio, cwic ac ymweliad gan Rachel, un o swyddogion yr Urdd, i wneud sesiwn o gemau potes yn y neuadd. Diolch yn fawr i Rachel am noson ddifyr!

Zoo lab

Nadroedd, pryfed cop, malwod enfawr, chwilod.....does dim ofn ar blant Ysgol Rhiwlas! Daeth zoolab ar ymweliad unwaith eto a chafodd pawb y cyfle i holi hanes pob math o greaduriaid o bedwar ban byd.

Hywel Williams

Braf oedd cael cwmni ein Aelod Seneddol Hywel Williams am y bore. Cafodd y plant gyfle i holi Mr Williams am ei waith. Diolch Mr Williams!

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Da iawn pawb a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod. Llonyfarchiadau i'r rhai a fu'n fuddugol ac i glwb Celf Mrs Halstead ar eu llwyddiant.

Plas Tanybwlech

Treuliodd plant blynyddoedd 5 a 6 ddau ddiwrnod ym Mhlas Tanybwlech a chafodd y plant gyfle i olrhain hanes y plas yn Oes Fictoria ac ymweliad â chastell Harlech.

Jenny o Eglwys Cedol

Diolch unwaith eto i Jenny o Eglwys Cedol am ei hymroddiad tuag at Ysgol Rhiwlas. Daeth atom i drafod gwasanaeth yr Eglwys a chynnal gwasanaeth i'r plant.

PC Dewi Thomas

“Paid cyffwrdd, dweud!” oedd y neges bwysig gan PC Thomas. Daeth PC Thomas â Tharian y Ddraig atom i drafod peryglon moddion a phwysigrwydd peidio cyffwrdd ym moddion pobl eraill.

Nofio

Mae blynyddoedd un i chwech wedi bod yn nofio yn wythnosol ers cyn y gwyliau Haf ac wedi gwneud andros o gynnydd. Erbyn hyn, mae pawb yn nofio yn hyderus ac mae nifer wedi symud i fyny i'r grwp nesaf neu yn defnyddio llai i'w helpu i arnofio! Cafwyd sesiwn o hwyl yn ystod y wers olaf cyn y Nadolig i ddathlu llwyddiant y plant. Mae pawb yn edrych mlaen at ail-gydio yn y Flwyddyn newydd.

Gwasanaeth Eglwys Cedol

Diolch i Eglwys Cedol am gael ymuno yn eu gwasanaeth Nadolig eto eleni. Cafodd y plant berfformio Nos Sul o flaen eu teuluoedd ac o flaen aelodau'r Eglwys a gwnaeth pawb o'r dosbarth Meithrin hyd flwyddyn chwech gyfraniad i'r gwasanaeth. Diolch i bawb a gyfranodd.

Clwb Ffilm

Mae clwb ffilm wedi dechrau i blant yr ysgol ar nos Lun tan 5 yr hwyr trwy fisoedd y Gaeaf.

Y Nadolig

Rydym yn edrych ymlaen at gyfnod prysur yn yr ysgol gyda noson o garolau o amgylch y pentref, ffair Nadolig, cyngerdd gan y babanod a phantomeim gan yr adran iau ac os oes plant da yma efallai y cawn ymweliad gan ŵr pwysig iawn mewn dillad coch!

Ysgol Pen-y-bryn

Ymweliadau

Ar Dachwedd 5ed, aeth dosbarth Glyder i Gaer i Amgueddfa DEWA. Roedd yn ddiwmrod gwych gyda milwr Rhufeining yn ein tywys o gwmpas y ddinas. Gwelsom yr amffitheatr, y wal a gweddillion rhai o'r adeiladau. Mwynhaodd y plant yn fawr iawn!
Aeth dosbarth Elidir ar daith i Lanberis ble cawsant wybodaeth gan Warden Eryri. Yna aethant ymlaen i Gastell Caernarfon er mwyn dysgu am hanes yr adeilad arbennig.

Llwyddiant Chwaraeon



Llongyfarchiadau mawr i Osian Hughes ar gael ei ddewis i chwarae i dîm pel-droed Wrecsam! Dymunwn bob llwyddiant i ti, rydym yn falch iawn ohonat!

Llongyfarchiadau gwresog i Dafydd Williams ar gael ei ddewis i chwarae i dîm rygbi Eryri! Siwr y byddi di'n gaffaeliad mawr i'r tîm.

Llongyfarchiadau fil i Tomos Jones a Rory White ar eu llwyddiant diweddar gyda karate. Rydym yn siwr eich bod wedi dysgu sgiliau pwysig iawn. Daliwch ati! Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy!

Llongyfarchiadau mawr iawn i Tara Stephen a Catherine Roberts ar eu llwyddiant diweddar mewn cystadleuaeth gymnasteg ym Maes Glas. Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy am eu hanes!



Gala Nofio'r Urdd

Bu tîm nofio'r Ysgol yn brysur iawn yn paratoi tuag at a chystadlu yn y Gala a fu ym Mhwl Nofio Bangor ar Dachwedd y 17eg. Nofiodd pawb yn dda a chafodd amryw llwyddiant yn y rاسus unigol yn ogystal â'r rاسus cyfnewid. Diolch o galon i Delyth Roberts am ei chymorth parod yn paratoi'r tîm. Diolch hefyd i gwmni Krypton Cloth, Bangor am roi crysau T i'r nofwyr yn rhad ac am ddim. Bu un o'r rhieni, sef Renee Taylor, yn brysur yn trefnu hyn. Diolch iddi hithau. Edrychwn ymlaen rwan at y gala nofio nesaf!

Ciwrat

Diolch yn fawr iawn i Ms Jenny Hood, Ciwrad newydd Dyffryn Ogwen, am ddod atom ni i gynnal gwasanaeth arbennig. Edrychwn ymlaen at eich gweld eto.

Myfyrwraig

Daeth Miss Ffion Llwyd, sef darpar athrawes, atom ar Dachwedd 19eg er mwyn gwneud gwaith arbennig iawn ynglŷn â phontydd. Bu'n gweithio gyda Dyddgu Jones, Dafydd Herbert-Pritchard, Lleucu Bryn a Cian Ashton ac roedd wedi gwirioni gyda'u brwdfrydedd, ymroddiad a gallu i gwblhau tasgau heriol. Diolch yn fawr iawn i Miss Llwyd am ei gwaith diddorol ac i'r plant am eu gwaith caled.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen



Unwaith eto cawsom eisteddfod hynod llwyddiannus gyda llawer iawn o'r plant yn cystadlu a mwynhau mewn amryw o gystadlaethau. Cafodd y côr ail, y parti llefaru gyntaf, partiïon unsain gyntaf ac ail a'r grŵp offerynnol yn cael trydydd. Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb!!!!

Operation Christmas Child

Fel rhan o'u gwaith Addysg Grefyddol bu dosbarth Carnedd yn ceisio ateb y cwestiwn – A ddyliwn ni helpu eraill? Penderfynodd y plant fod hyn yn beth pwysig i'w wneud gan wneud y dewis o gyfrannu at waith yr elusen Operation Christmas Child. Gweithiodd y plant mewn grwpiau yn y dosbarth i greu pump boes esgidiau yn llawn anrhegion addas i anfon i blant llai ffodus na hwy eu hunain. Ar ôl gweld fideo am waith yr elusen penderfynodd plant o ddosbarthiadau eraill gyfrannu hefyd ac erbyn y diwrnod y daeth y fan i gasglu y bocsys roedd yna 33 o focsys llawn anrhegion gwych. Da iawn blant Ysgol Pen y Bryn am helpu eraill.

Ysgol Llanllechid

Bryisia Adre Leon

Ar yr adeg ysgrifennu hwn, mae Leon yn parhau i fod yn ysbyty Alder Hey. Fel y gwyrddoch, mae Leon yn dioddef o gyflwr Nephrotic Syndrome FSGS ac ar hyn o bryd y newyddion da yw fod y tabledi newydd yn gweithio'n dda ac mae'r pwysau gwaed wedi sefydlogi. Ond, wrth gwrs, mae gan Leon bach fynydd i'w ddringo ac rydym i gyd o'i amgylch yn ei gefnogi ac yn ceisio ein gorau i'w gynorthwyo.

Rydym yn mawr obeithio y bydd Leon adref cyn y Nadolig ac y bydd yn teimlo'n ddigon cryf i ddod draw i'n gweld, ac rwy'n gwybod fod Leon yn edrych ymlaen yn fawr i gael dangos y llyfr y mae wedi ei greu tra yn yr ysbyty i'r plant.

Llawer iawn o ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu mewn cymaint o ffyrdd i helpu Leon ac, yn naturiol, rydym yn parhau i wneud hynny. Yr hyn sydd nesaf ar ein agenda yw Bore Coffi Nadolig i Leon, a gynhelir ar Ragfyr 8fed yn y Clwb Criced. Mae'r teulu yn hynod o werthfawrogi ac wedi anfon blodau hyfryd i'r ysgol fel arwydd o ddiolch i bawb yn yr ysgol am eu caredigrwydd. Edrychwn ymlaen yn fawr at gael Leon yn ôl yn nosbarth Mrs Parry Owen pan fydd yn teimlo'n ddigon da – tan hynny dymuniadau gorau i chdi Leon bach.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at deulu Mrs Mona MacDonald (Anti Mona). Bu farw tad Mrs McDonald yn ddiweddar ac rydym i gyd yn yr ysgol yn anfon ein cofion at y teulu. Yn yr un modd cydymdeimlwn â theulu Mr a Mrs Dafydd Griffiths (Anti Gillian) yn eu profedigaeth o gollu Gwyn.

Gwellhad Buan

Rydym yn falch o glywed fod Ms Dianne yn gwella. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn ôl yn yr ysgol yn fuan.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Unwaith eto, cafwyd Eisteddfod lwyddiannus dros ben yn Nyffryn Ogwen a braf oedd gweld cymaint o blant yr ysgol yn cystadlu mewn ystod helaeth o wahanol feysydd; rhai yn canu'n unigol neu'n aelod o barti unsain a cherdd dant a phawb yn aelod o'r côr, a gipiodd y wobwr gyntaf! Felly hefyd y llefarwyr; diolch i bawb am fentro ar y llwyfan yn unigol neu fel rhan o'r parti – da iawn chi. Daeth y dawnsio disgo i'r brig a diolch i Ms Awen a Ms Nicola am eich hyfforddi i safon mor uchel – beiriadaeth werth chweil! Roedd y grwp ensemble yn llenwi'r llwyfan ac yn werth eu gweld. Daeth gwobrau lu i'r disgyblion hefyd yn yr adran lenyddol a'r adran gelf a chreffft. Ardderchog wir blant a diolch i bawb fu'n hyfforddi ac yn cefnogi. Wedi'r Eisteddfod, cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn yr ysgol i longyfarch y plant ar eu llwyddiannau a chyflwynwyd blodau hyfryd i Mrs Helen Williams i ddiolch iddi am ei gwaith clodwiw yn hyfforddi'r unawdwyr.

Eilir Jones (Ffarmwr Ffowc)

Daeth Eilir Jones draw i'r ysgol i gynnal gweithdy drama gyda disgyblion bl 6. Cafodd y disgyblion fodd i fyw yn sgrïpto ac actio a chwerthin nes oedd eu hochrau'n brifo !!

Wythnos iach



Roedd wythnos olaf mis Tachwedd yn 'Wythnos Hybu Iechyd' yn yr ysgol. Trefnwyd nifer helaeth o weithgareddau i atgoffa'r plant ynglŷn â sut i edrych ar ôl y corff a'r hyn sydd ei angen er mwyn cadw'r corff yn iach. Bu gwahanol ddsbarthiadau yn ymwneud â thorrheth o

weithgareddau gan gynnwys: trafod egwyddorion Ysgol KIVA sef ymgyrch sydd yn hyrwyddo ysgol ac ethos positif; crwydro ar deithiau cerdded i ben Moel Faban ac i lawr Nant Ffrancon o Lyn Ogwen. Diolch yn fawr i Morfudd Thomas a Cemlyn Jones am arwain y teithiau hyn. Cafwyd sesiynau chwaraeon ym Mhlas Ffrancon a sesiynau sgipio, a chafodd rhai o'r dosbarthiadau ieuengaf gadw'n iach drwy ymarferion 'cheerleading' – diolch i Ms Emma. Cafwyd partion bywd iach a gwnaethpwyd cibabs ffrwythau godidog; trafodwyd peryglon ysmegu a sicrhawyd fod pob un yn yr ysgol yn deall pwysigrwydd golchi dwylo. Yn ogystal, diolchir i Mr Northam am ddod i mewn atom i'n dysgu am y pwysigrwydd o gadw'n hamgylchfyd yn lân ac yn daclus. Pwysleisiodd Mr Northam pa mor bwysig yw cadw Lôn Fach Odro'n daclus drwy beidio a thafllu sbwriel ar y llaw a chofio defnyddio'r buniau sbwriel ac ail gylchu pob amser.

Perisgop

Mae blwyddyn 5 wedi bod yn creu perisgop sydd yn ymgorffori agweddau o Wyddoniaeth, Technoleg a Rhif. Roedd y disgyblion yn meddwl pwy oedd eu cynulleidfda darged wrth greu poster i'farchnata'r perisgop. Entrepreneurs y dyfodol!

Artist

Mae'r artist Anna Pritchard wedi bod yn gweithio gyda dosbarthiadau'r Adran Iau yn ystod yr wythnosau diwethaf yn creu campweithiau celf bendigedig, o furluniau i fodelau 3D. Gwych!

Piggery Pottery

Aeth disgyblion y Dosbarth Derbyn draw i Lanberis yn ddiweddar i greu campweithiau yn 'Piggery Pottery'. Cawsant amser gwych yn prentio patrymau lliwgar a diddorol ar eu 'cadw mi gei' eu hunnain ac roedd gweld yr holl foch bach lliwgar ar silff yn y dosbarth yn olygfa werth chweil!

Addysg Ryngwladol Ardderchog

Daeth Ysgol Llanllechid, sydd eisoes wedi ei achredu yn Ysgol Ryngwladol, i'r brig mewn cystadleuaeth Brydeinig 'Link2Learn' gan guro 350 Ysgol Ryngwladol arall. Roedd y beirniad yn canmol safon uchel y gystadleuaeth a dywedodd y trefnydd John Rolfe o'r Cyngor Prydeinig fod safon gwaith Ysgol Llanllechid yn "ardderchog". Gwahoddwyd Mrs Davies Jones ynghyd ag aelod o'r Llywodraethwyr phedwar o ddisgyblion i Lundain er mwyn gwneud cyflwyniad o'r gwaith yn adeilad HSBC yn Canary Wharf. Yn ogystal, roedd sicc fawr o £1,500 yn disgwyl amdanynt yno. Diolch yn fawr i Mrs Delyth Jones, Arlun, Nel, Mia a Josh ac i Ms Hanna Huws ein cyd-gysylltydd gweithgar.



John Rolfe o'r Cyngor Prydeinig a David Martin Pennaeth Ysgolion y Cyngor Prydeinig ar ol y cyflwyniad yn ystod y seremoni wobrwyo yn adeilad HSBC (41 llawr!) Canary Wharf - plant: Arlun, Nel, Josh a Mia

Dywedodd y pennaeth Mrs Gwenan Davies Jones: "Mae'r wobwr yn glod i'r ysgol gyfan yn enwedig i'r disgyblion am eu brwdfrydedd ac i'r athrawon a'r cymorthyddion am eu gwreiddioldeb a dyfalbarhad wrth gyflwyno gwahanol agweddau o ddinasyddiaeth fyd-eang. Rydym yn fyddiog bydd yr addysg eang yma yn rhoi mwy o hyder, uchelgais a chyffledd i'n disgyblion yn y dyfodol ac wrth gwrs rydym wrth ein boddau yn cael y cyfle i ddangos fod ardal Dyffryn Ogwen yn medru cynnig addysg ryngwladol cystal ag unrhyw ysgol ym Mhrydain."

Bocsys y Samariaid

Unwaith eto eleni casglwyd y bocsys yma - diolch i chi rieni am fod mor barod i gefnogi'r ymgyrch.

Cyfarchion y Tymor

Bydd y disgyblion yn ôl yn yr ysgol ar Ionawr 8fed, 2013 a'r staff ar Ionawr 7fed.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl ddarllenwyr.

Ysgol Abercaseg

Diwrnod o hwyl

I ba gyfeiriad bynnag yr oeddech yn troi yn yr ysgol ar Dachwedd 16eg y cwbl a allech ei weld oedd sbotiau -sbotiau ar freichiau, coesau, boliau a wynebau yn ogystal â sawl arth yn cerdded o amgylch y lle! Bu'r plant meithrin yn brysur yn coginio ac addurno bisgedi sbotiog, a'r dosbarth derbyn yn defnyddio cynnyrch masnach deg i wneud cacennau eirth. Cafwyd diwrnod hwyllog, gyda'r arian a gasglwyd yn mynd tuag at ymgyrch 'Plant Mewn Angen'.

Eisteddfod lwyddiannus iawn

Unwaith eto eleni, bu'r ysgol yn brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymrodd ran, boed ar y llwyfan neu yn y cystadlaethau gwaith cartref. Bu'n Eisteddfod hynod lwyddiannus i'r ysgol, a gellir gweld llun o'r enillwyr ar wefan yr ysgol www.ysgolabercaseg.org


Codwch. Bagiwch. Biniwch.

"Glanhewch ar ôl eich ci" a "Codwch. Bagiwch. Biniwch". Mae'n debyg i'r rhai craff ohonoch weld y negeseuon yma ar bosteri o amgylch y pentref. Mae plant Abercaseg wedi cael llond bol ar bobl yn gadael eu cwn yn rhydd ym Methesda, ac yn cael eu cynddeiriogi o weld baw cwn ar lwybrau a phalmentydd. Cymaint yw eu haniddigrwydd, fel eu bod wedi dylunio'r posteri gyda chymorth swyddog 'Trefi Taclus Gwynedd'



'Does ond gobeithio y bydd pobl yn talu sylw ac yn gweithredu ar y cnygor er budd holl drigolion y pentref. (llun 1)

E-gerdyn Shaun



Bydd e-gerdyn Nadoligaidd a ddyluniwyd gan Shaun Osian Hughes, o'r dosbarth derbyn, yn cael ei anfon gan y corff arolygu Estyn i holl ysgolion Cymru a darparwyd addysg y Nadolig yma. Bu i Estyn ddewis Ysgol Abercaseg i ddylunio eu cerdyn Nadolig, ac o'r holl rai a anfonwyd atynt, bu iddynt ddewis un Shaun. Llongyfarchiadau mawr Shaun.

Masnach Deg

Bu i Mrs Helen Davies, nain Cian Rhys, ddod draw atom i sôn am ei chysylltiad â theulu ym Malawi, Affrica. Eglurodd sut y bu i'r teulu, drwy dderbyn arian o werthiant cynnyrch masnach deg, fedru anfon eu plentyn i'r ysgol. Yn sicr, bu i'r sgwrs godi ymwybyddiaeth y plant o gynnyrch masnach deg ac ym mha ffordd y caiff yr arian o'i werthu effaith gadarnhaol ar fywydau teuluoedd mewn rhannau eraill o'r byd.

Darllenwyr brwd

Llongyfarchiadau i'r nifer fawr o ddisgyblion yr ysgol a dderbyniodd fedalau yn ddiweddar gan Wasanaeth Llyfrgell Gwynedd am fynychu llyfrgelloedd y sir yn gyson drwy gydol y Gwyliau Haf. Braff gweld cymaint yn gwneud defnydd o Lyfrgell Bethesda ac yn cael mwynhad o ddarllen llyfrau.

Operation Christmas Child

Un o'r arwyddion cyntaf bod y Nadolig yn agosau yw gweld yr holl focs Operation Christmas Child yng nghyntedd yr ysgol. Bu'r plant a'u rhieni eto eleni'n brysur yn llenwi bocsys esgidiau ac yn cefnogi'r ymgyrch haeddianol yma. Diolch i chwi i gyd.

Clwb cinio a phrynhawn Ysgol Abercaseg

Croeso i'r plant bach newydd sydd wedi cychwyn yn y clwb ac i'r criw sy'n cychwyn ar ôl y Nadolig. Rydym yn siwr y bydd y plant newydd wrth eu boddau yn chwarae yn y filfeddygfa newydd. Am unrhyw fanylion ynglŷn â'r clwb cysylltwch â Marion Mayhead ar 07768045755.

O'r Eisteddfod

Llongyfarchiadau i bawb o ysgolion y cylch a gymerodd ran yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen



Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Taith o Amgylch Mynwentydd Dyffryn Ogwen

gan Andre Lomozik

Rhan 5

Eglwys Goffa Donald Robertson (Eglwys Coetmor)

Heb fod ymhell o fedd Syr Idris Foster mae bedd dau fachgen ifanc, John Verker Bindon a Gordon Thomas Gamble.



In Loving Memory
of
John Verker Bindon
and
Gordon Thomas Gamble
who were killed climbing
their beloved mountains 27th January
1943
both aged 21 years

Lladdwyd y ddau tra'n dringo yn Nyffryn Ogwen ar yr 27ain o Ionawr 1943. Yn ôl adroddiad yn y North Wales Chronicle 'roedd y ddau wedi bod yn fyfyrwyr ym Mhrifysgol Llundain. Roedd rhan o'r Brifysgol wedi cael ei symud i Fangor oherwydd amgylchiadau'r ail ryfel byd, ac mae'n debyg bod John V. Bindon, a oedd erbyn hyn yn gadet gyda'r Peirianwyr Brenhinol, a Gordon T. Gamble, a oedd yn gynorthwyr mewn labordy, yn gyfeillion coleg. Bachgen o Lyndhurst Gardens, Hampstead, Llundain oedd John a Gordon yn dod o Preston Road Wembley.

Bu nifer fawr o fyfyrwyr a'r heddlu yn chwilio amdanynt ar ôl derbyn rhybudd nad oeddynt wedi dychwelyd i'r hostel. Ar ôl ychydig cafwyd hyd iddynt mewn lle anghysbell ar yr 'Idwal Slabs' ond 'roedd yn rhaid cael dringwyr profiadol i ddringo atynt, a gŵr o Dregarth oedd un, sef Mr Glyn Williams, Fron Ogwen; Mr Richard Hughes, Ysgol Amaethyddiaeth Prifysgol Bangor, a Mr Elfyn Hughes, Ffordd Caernarfon, Bangor oedd y ddau arall.

EGLWYS Y GELLI TREGARTH

Dyma lle y claddwyd y Parchedig E. Tegla Davies, a fu'n weinidog yn Abergele, Leeds, Porthaethwy, Y Felinheli, Tregarth, (deirgwaith), Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Dinbych, Manceinion, (ddwywaith) Lerpwl, Bangor a Choedpoeth.

Ganwyd E. Tegla Davies yn y flwyddyn 1880 yn yr Hen Giat Llandegla-yn-Iâl, Dinbych, yn bedwerydd o chwech o blant i William a Mary Ann Davies. Symudodd y teulu i bentref Bwlchgwyn ym 1896 ac yno dechreuodd Edward fel disgybl-atrhu yn bedair ar ddeg oed. Yno hefyd y daeth o dan ddylanwad Tom Arfon Davies, a ddefrodd ei ddiddordeb mewn hanes a llenyddiaeth Cymru.

Cafodd Edward drôedigaeth ar ôl cyrddau pregethu yng Nghoedpoeth a phenderfynodd fynd i'r weinidogaeth. Derbyniwyd ef fel gweinidog ar brawf yn 1901, ac ar ôl blwyddyn aeth i goleg Didsbury, Manceinion. Priododd â Jane Eleanor (Nel) Evans, a ganwyd iddynt dri o blant: Dyddgu, Arfon a Gwen.

Ysgrifennodd lawer o storïau, yn eu mysg 'Hunangofiant Tomi', 'Nedw', 'Rhys Llwyd y Lleuad', a 'Y Doctor Bach', i enwi ond ychydig. Derbyniodd radd M.A. er anrhydedd o Brifysgol Cymru ym 1924 am ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg, a D.Litt ym 1958. Bu farw ym 1967.



Parchedig
E. Tegla Davies
1880 – 1967
Eglwys Gelli Tregarth

SIOP STAR BETHESDA 1931



Yr ail o'r dde yw Robert John Jones o Lanberis a oedd yn fab i Robert Thomas Jones (RT) a oedd yn swyddog iawndaliadau yn chwarel Dinorwig am gyfnod. Yn ddiweddarach agorodd R.J. siop ei hun yn Amlwch.

Hogia' Tyff!

Sut fasach chi'n hoffi rhedeg 12 milltir drwy fwd ar gwrs sy'n cynnwys 23 o rwystrau? Rhwystrau megis pwll o rew, waliau uchel, cropan drwy bibellau dŵr, nofio llynnoedd o ddŵr budr, cario boncyff coeden am chwarter milltir ac yna wynebu sioc drydanol! "Na" fusai ateb y rhan fwyaf ohonom ni mae'n siŵr.



Ond dyna wnaeth pymtheg o ddynion lleol yn ddiweddar wrth gystadlu yn Ras y "Tough Mudder" yn ymyl Caer. Ond dim criw o hogia' ifanc oedd y rhain - roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw yn tynnu at eu deugain oed, ambell un ohonyn nhw dros ddeugain ac un dros hanner cant!

Syniad Michael Oliver, Capel Cwta, oedd y cyfan medda' gweddill y dynion a bu raid ymarfer yn galed am tua 7 mis er mwyn bod yn barod am y ras.



Cymerodd pawb ei dro i drefnu ymarferion megis rhedeg i fyny gelltydd, rhedeg drwy afonydd, cario pwysau trwm, cropan drwy bibellau dŵr, troi teiars lori wyneb yn waered a neidio i mewn i Afon Ogwen. Roedd yr ymarferion yn bwysig iawn i greu tîm oedd yn cydweithio ac yn edrych ar ôl pob aelod. Yn bwysicach na hynny, roedd pawb yn mwynhau ac yn cael hwy! er mor galed oedd yr ymarferion.

Bu camerâu teledu yn dilyn y dynion wrth ymarfer ac yn ystod y ras. Dangoswyd y ffilmio mewn pedair rhan ar y rhaglen Y Lle ar S4C.

Llwyddodd pob un i orffen y "Tough Mudder" - ac er nad oedd pawb efo'i gilydd yn ystod y ras, nid oedd yr un ohonyn nhw ar ei ben ei hun chwaith. Roedd pawb o'r criw yn teimlo eu bod wedi cefnogi ei gilydd ac yn falch eu bod wedi aros yn ffrindiau drwy'r holl ymarferion caled.

A beth nesa' i hogia'r "Tough Mudder"? Maen nhw'n dal i ymarfer ac yn meddwl am y sialens nesa'!